TGAU

TGAU CBAC

# CYMRAEG IAITH

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

# CANLLAWIAU ATHRAWON

Addysgu o 2015



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

## CYFLWYNIAD

Mae'r cymhwyster CBAC TGAU Cymraeg Iaith sydd wedi ei achredu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dechrau addysgu o fis Medi 2015 ar gael i:

- holl ysgolion a cholegau yng Nghymru.

Manyleb linol yw TGAU Cymraeg Iaith: bydd yr asesiadau i gyd yn digwydd ar ddiwedd y cwrs a fydd fel arfer ym mis Mai neu fis Mehefin. Bydd cyfle i ailsefyll ym mis Tachwedd yn flynyddol. Cynllunir yr unedau asesu ar gyfer yr ystod gallu llawn a byddant yn ddi-haen.

Bydd tair uned asesu:

Uned 1: Llafaredd (asesiad diarholiad)

Uned 2: Darllen ac Ysgrifennu (asesiad allanol)

Uned 3: Darllen ac Ysgrifennu (asesiad allanol)

Er yr adroddir ar berfformiad yn erbyn y tri amcan asesu ar wahân, bydd darllen ac ysgrifennu yn cael eu hasesu yn y ddau arholiad allanol.

Dylai ymgeiswyr sy'n dilyn manyleb TGAU Cymraeg Iaith gael eu hysbrydoli a'u herio gan ddatblygu diddordeb a brwdfrydedd yn y Gymraeg a'u harfogi i gyfrannu at gymdeithas ddwyieithog drwy siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn rhugl ac effeithiol ar gyfer ystod eang o bwrpasau cymdeithasol a gweithredol. Disgwylir i ymgeiswyr ymateb i ystod eang o destunau ysgrifenedig gan gynnwys testunau heriol a deinamig.

Mae TGAU mewn Cymraeg Iaith yn hybu dull integredig o gyflwyno llafaredd, darllen ac ysgrifennu fel bod gwaith llafar ac ysgrifennu yn cael eu symbylu gan ddeunydd darllen.

Bydd TGAU Cymraeg Iaith yn canolbwyntio'n bennaf ar agweddau gweithredol yr iaith. Dylai'r term 'gweithredol' yn y fan hon gael ei ystyried yn yr ystyr eang o roi'r sgiliau a'r galluoedd i ddysgwyr i ymgymryd â rôl weithgar a chyfrifol yn eu cymunedau, eu bywydau bob dydd, yn y gweithle ac mewn lleoliadau addysgol.

Bwriad astudio TGAU Cymraeg Iaith yw annog dilyniant i addysg bellach neu uwch, neu i gyflogaeth gan ei fod yn cyflwyno sgiliau allweddol darllen, ysgrifennu a chyfathrebu.

Amlinellir y gofynion llawn yn y fanyleb a gellir dod o hyd iddi ar wefan CBAC.

Yn ogystal â'r canllawiau hyn, ceir cefnogaeth drwy'r canlynol:

- Deunyddiau Asesu Enghreifftiol
- Achlysuron wyneb yn wyneb DPP
- Adroddiadau Arholwyr ar bob uned
- Mynediad am ddim i gyn bapurau arholiad a chynlluniau marcio ar y wefan ddiogel
- Cyswllt uniongyrchol â'r Swyddog Pwnc
- Adnoddau am ddim ar-lein
- Dadansoddiad o ganlyniadau arholiadau
- Adolygiad Arholiad Ar-lein

## NODAU CANLLAWIAU ATHRAWON

Prif nod Canllawiau Athrawon yw cynnig cefnogaeth i athrawon wrth gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Cymraeg Iaith ynghyd â chanllawiau i ofynion y cymhwyster a'r broses asesu.

Ni fwriadwyd y ddogfen hon i'w defnyddio fel canllaw cyflawn, ond yn hytrach yn gefnogaeth i athrawon proffesiynol i ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous wedi eu teilwra i anghenion a sgiliau eu myfyrwyr yn y sefydliadau y maen nhw'n gweithio ynddynt.

Mae'r canllawiau yn cynnig cymorth i athrawon ynglŷn â gweithgareddau dosbarth posibl ynghyd â chysylltiadau i adnoddau digidol (rhai CBAC sydd ar gael am ddim a ffynonellau allanol.)

Bydd y canllawiau hyn yn canolbwyntio ar feysydd newydd i Fanylebau pwnc CBAC a'r meysydd hynny lle mae'r galw mwyaf am ganllawiau.

| LLAFAREDD | |
|---|---|
| MAES ASTUDIO | DISGRIFIAD |
| **Tasg 1 – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil – Thema 1: Cymru** | Canllawiau i'r cyflwyniadau yn seiliedig ar thema 'Cymru'. |
| **Tasg 1 – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil – Thema 2: Hamdden** | Canllawiau i'r cyflwyniadau yn seiliedig ar thema 'Hamdden'. |
| **Tasg 1 – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil – Thema 3: Byd Gwaith** | Canllawiau i'r cyflwyniadau yn seiliedig ar thema 'Byd Gwaith'. |
| **Tasg 1 – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil – Thema 4: Byd Gwyddoniaeth / Technoleg** | Canllawiau i'r cyflwyniadau yn seiliedig ar thema 'Byd Gwyddoniaeth/Technoleg'. |
| **Tasg 1 – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil – Thema 5: Dinasyddiaeth** | Canllawiau i'r cyflwyniadau yn seiliedig ar thema 'Dinasyddiaeth'. |
| **Tasg 2 – Ymateb a Rhyngweithio** | Canllawiau i drafod mewn grŵp. |

ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO:

**Tasg 1 – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil – Thema Cymru**

## Pwyntiau Allweddol:

- Asesiad Diarholiad sy'n gyfwerth â 15% o'r asesiad cyfan.
- Y prif sgiliau y bydd angen eu haddysgu yw'r gallu i gyflwyno gwybodaeth a syniadau yn fanwl, cydlynol ac effeithiol. Bydd angen addysgu'r ymgeiswyr i ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth ac i ystyried gofynion cynulleidfa yn ogystal ag ymateb yn effeithiol i gwestiynau.
- Gall yr ymgeiswyr gyflwyno o flaen grŵp neu o flaen dosbarth cyfan yn ddibynnol ar amgylchiadau'r ysgol a'r ymgeiswyr. Gellir gwneud recordiad sain neu glyweled. Mae'n rhaid recordio pob ymgeisydd.
- Pwysleisir **nad tasg ddarllen** mo hon.

## PARATOI I ADDYSGU


ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

CYFLWYNIAD UNIGOL AR SAIL YMCHWIL: RÔL YR ATHRO A RÔL YR YMGEISYDD

RÔL YR ATHRO

Gwirio dewis yr ymgeisydd

RÔL YR YMGEISYDD

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

**Cliciwch ar y ddelwedd ar y chwith** i weld awgrymiadau am weithgareddau paratoi a disgrifiadau bras o berfformiadau ar bob band marciau.

Dylai ymgeiswyr gael un wythnos i baratoi o flaen llaw ar gyfer y dasg. Gallant ymchwilio i'r pwnc trwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd/ cylchgronau/llyfrau cyfair/pamffledi, gwrando ar raglenni teledu neu holi pobl.

Rôl yr athro - gallwch roi arweiniad a chynnig cyngor cyffredinol i'r ymgeiswyr. Mae cyngor wrth ddewis testun yn allweddol er mwyn sicrhau y gall yr ymgeisydd arddangos y sgiliau angenrheidiol i lwyddo. Bydd y cyflwyniadau'n parhau rhwng 5 a 7 munud, yn cynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

**Syniadau o dan thema Cymru:**

- Unigolion o Gymru a'u cyfraniad i faes arbennig e.e. cerddorion, gwleidyddion, meddygon, anturiaethwyr neu rywun sydd wedi gwneud cyfraniad amlwg yng nghymuned yr ymgeisydd
- Digwyddiad penodol yn hanes Cymru a'i effaith ar y wlad a'i datblygiad e.e. boddi Capel Celyn, y Siartwyr, Merched Beca, Sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia, datblygiadau yng Nghymru yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, effaith Datganoli ar Gymru
- Cyflwyniad am ardal arbennig gan drafod ei chyfraniad a'i dylanwad
- Agweddau ar ddiwylliant Cymru e.e. y Gymraeg yn yr unfed ganrif ar hugain, defodau'r eisteddfod, cerddoriaeth gyfoes

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO:

**Tasg 1 – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil – Thema Hamdden**

Pwyntiau Allweddol:

- Asesiad Diarholiad sy’n gyfwerth â 15% o’r asesiad cyfan.
- Y prif sgiliau y bydd angen eu haddysgu yw’r gallu i gyflwyno gwybodaeth a syniadau yn fanwl, cydlynol ac effeithiol. Bydd angen addysgu’r ymgeiswyr i ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth ac i ystyried gofynion cynulleidfa yn ogystal ag ymateb yn effeithiol i gwestiynau.
- Gall yr ymgeiswyr gyflwyno o flaen grŵp neu o flaen dosbarth cyfan yn ddibynnol ar amgylchiadau’r ysgol a’r ymgeiswyr. Gellir gwneud recordiad sain neu glyweled. Mae’n rhaid recordio pob ymgeisydd.
- Pwysleisir **nad tasg ddarllen** mo hon.

## PARATOI I ADDYSGU


ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

CYFLWYNIAD UNIGOL AR SAIL YMCHWIL: RÔL YR ATHRO A RÔL YR YMGEISYDD

RÔL YR ATHRO

Gwirio dewis yr ymgeisydd

Sicrhau mai nodiadau cryno fydd gan yr ymgeisydd er mwyn osgoi darllen.

RÔL YR YMGEISYDD

Dewis testun sydd o ddiddordeb gwirioneddol

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

**Cliciwch ar y ddelwedd ar y chwith** i weld awgrymiadau am weithgareddau paratoi a disgrifiadau bras o berfformiadau ar bob band marciau.

Dylai ymgeiswyr gael un wythnos i baratoi o flaen llaw ar gyfer y dasg. Gallant ymchwilio i’r pwnc trwy ddefnyddio’r we, darllen papurau newydd/ cylchgronau/llyfrau cyfair/ pamffledi, gwrando ar raglenni teledu neu holi pobl.

Rôl yr athro - gallwch roi arweiniad a chynnig cyngor cyffredinol i’r ymgeiswyr. Mae cyngor wrth ddewis testun yn allweddol er mwyn sicrhau y gall yr ymgeisydd arddangos y sgiliau angenrheidiol i lwyddo. Bydd y cyflwyniadau’n parhau rhwng 5 a 7 munud, yn cynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

**Syniadau o dan thema Hamdden:**

- Cyflwyniad ar weithgaredd sydd o ddiddordeb i’r unigolyn e.e. beicio modur, pysgota, dringo. Gellir sôn am gefndir a datblygiad y maes yn gyffredinol yn ogystal â materion technegol cyn cyflwyno elfen bersonol sy’n gofyn am werthuso a dadansoddi.
- Cyflwyniad ar glwb pêl-droed. Gellir sôn am sefydlu’r clwb, datblygiad y clwb, uchafbwyntiau a chyfnodau heriol, chwaraewyr penodol, dull o chwarae, pwysigrwydd y clwb o fewn y gymuned, gwaith cymunedol ac elusennol y clwb a materion ariannol er enghraifft, a bydd rhai o’r agweddau hyn yn gofyn am ddadansoddi a gwerthuso.
- Cyflwyniad am unigolyn e.e. Shane Williams, Gareth Bale, Jade Jones, Non Stanford
- Merched ym myd chwaraeon - gellir trafod unigolion, proffil merched o’i gymharu â dynion, merched fel hyfforddwyr

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO:

**Tasg 1 – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil – Byd Gwaith**

## Pwyntiau Allweddol:

- Asesiad Diarholiad sy'n gyfwerth â 15% o'r asesiad cyfan.
- Y prif sgiliau y bydd angen eu haddysgu yw'r gallu i gyflwyno gwybodaeth a syniadau yn fanwl, cydlynol effeithiol. Bydd angen addysgu'r ymgeiswyr i ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth ac i ystyried gofynion cynulleidfa yn ogystal ag ymateb yn effeithiol i gwestiynau.
- Gall yr ymgeiswyr gyflwyno o flaen grŵp neu o flaen dosbarth cyfan yn ddibynnol ar amgylchiadau'r ysgol a'r ymgeiswyr. Gellir gwneud recordiad sain neu glyweled. Mae'n rhaid recordio pob ymgeisydd.
- Pwysleisir **nad tasg ddarllen** mo hon.

## PARATOI I ADDYSGU




**Cliciwch ar y ddelwedd ar y chwith** i weld awgrymiadau am weithgareddau paratoi a disgrifiadau bras o berfformiadau ar bob band marciau.

Dylai ymgeiswyr gael un wythnos i baratoi o flaen llaw ar gyfer y dasg. Gallant ymchwilio i'r pwnc trwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd/ cylchgronau/llyfrau cyfair/ pamffledi, gwrando ar raglenni teledu neu holi pobl.

Rôl yr athro - gallwch roi arweiniad a chynnig cyngor cyffredinol i'r ymgeiswyr. Mae cyngor wrth ddewis testun yn allweddol er mwyn sicrhau y gall yr ymgeisydd arddangos y sgiliau angenrheidiol i lwyddo. Bydd y cyflwyniadau'n parhau rhwng 5 a 7 munud, yn cynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

**Syniadau o dan thema Byd Gwaith:**

- Cyflwyniad ar brofiad gwaith yr ymgeisydd. Gellir rhoi cefndir y lleoliad, rheswm dros y dewis, sôn am y profiadau, gwerthuso a dadansoddi'r profiad ac edrych i'r dyfodol
- Cyfraniad diwydiant arbennig i ardal yr ymgeisydd
- Agweddau ar y testun 'Gwneud bywoliaeth yng nghefn gwlad Cymru'

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO:

## Tasg 1 – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil – Byd Gwyddoniaeth/Technoleg

### Pwyntiau Allweddol:

- Asesiad Diarholiad sy'n gyfwerth â 15% o'r asesiad cyfan.
- Y prif sgiliau y bydd angen eu haddysgu yw'r gallu i gyflwyno gwybodaeth a syniadau yn fanwl, cydlynol ac effeithiol. Bydd angen addysgu'r ymgeiswyr i ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth ac i ystyried gofynion cynulleidfa yn ogystal ag ymateb yn effeithiol i gwestiynau.
- Gall yr ymgeiswyr gyflwyno o flaen grŵp neu o flaen dosbarth cyfan yn ddibynnol ar amgylchiadau'r ysgol a'r ymgeiswyr. Gellir gwneud recordiad sain neu glyweled. Mae'n rhaid recordio pob ymgeisydd.
- Pwysleisir **nad tasg ddarllen** mo hon.

## PARATOI I ADDYSGU


ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU
CYFLWYNIAD UNIGOL AR SAIL YMCHWIL: RÔL YR ATHRO A RÔL YR YMGEISYDD
RÔL YR ATHRO
RÔL YR YMGEISYDD
ADNODDAU DEFNYDDIOL

**Cliciwch ar y ddelwedd ar y chwith** i weld awgrymiadau am weithgareddau paratoi a disgrifiadau bras o berfformiadau ar bob band marciau.

Dylai ymgeiswyr gael un wythnos i baratoi o flaen llaw ar gyfer y dasg. Gallant ymchwilio i'r pwnc trwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd/cylchgronau/ llyfrau cyfair/pamffledi, gwrando ar raglenni teledu neu holi pobl.

Rôl yr athro - gallwch roi arweiniad a chynnig cyngor cyffredinol i'r ymgeiswyr. Mae cyngor wrth ddewis testun yn allweddol er mwyn sicrhau y gall yr ymgeisydd arddangos y sgiliau angenrheidiol i lwyddo. Bydd y cyflwyniadau'n parhau rhwng 5 a 7 munud, yn cynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

**Syniadau o dan thema Byd Gwyddoniaeth/Technoleg:**

- Defnydd o dechnoleg mewn maes arbennig e.e. rhyfel neu feddygaeth
- Datblygiadau ym myd meddygaeth e.e. trin clefydau yn yr unfed ganrif ar hugain a chymharu â'r triniaethau cyntefig
- Sôn am gwmni neu unigolyn penodol ym maes technoleg a gwerthuso'u cyfraniad
- Datblygiadau ym maes teithio i'r gofod

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO:

**Tasg 1 – Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil – Dinasyddiaeth**

Pwyntiau Allweddol:

- Asesiad Diarholiad sy'n gyfwerth â 15% o'r asesiad cyfan.
- Y prif sgiliau y bydd angen eu haddysgu yw'r gallu i gyflwyno gwybodaeth a syniadau yn fanwl, cydlynol ac effeithiol. Bydd angen addysgu'r ymgeiswyr i ddadansoddi a gwerthuso gwybodaeth ac i ystyried gofynion cynulleidfa yn ogystal ag ymateb yn effeithiol i gwestiynau.
- Gall yr ymgeiswyr gyflwyno o flaen grŵp neu o flaen dosbarth cyfan yn ddibynnol ar amgylchiadau'r ysgol a'r ymgeiswyr. Gellir gwneud recordiad sain neu glyweled. Mae'n rhaid recordio pob ymgeisydd.
- Pwysleisir **nad tasg ddarllen** mo hon.

## PARATOI I ADDYSGU


ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

CYFLWYNIAD UNIGOL AR SAIL YMCHWIL: RÔL YR ATHRO A RÔL YR YMGEISYDD

RÔL YR ATHRO

Gwirio dewis yr ymgeisydd

RÔL YR YMGEISYDD

ADNODDAU DEFNYDDIOL

**Cliciwch ar y ddelwedd ar y chwith** i weld awgrymiadau am weithgareddau paratoi a disgrifiadau bras o berfformiadau ar bob band marciau.

Dylai ymgeiswyr gael un wythnos i baratoi o flaen llaw ar gyfer y dasg. Gallant ymchwilio i'r pwnc trwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd/cylchgronau/ llyfrau cyfair/pamffledi, gwrando ar raglenni teledu neu holi pobl.

Rôl yr athro - gallwch roi arweiniad a chynnig cyngor cyffredinol i'r ymgeiswyr. Mae cyngor wrth ddewis testun yn allweddol er mwyn sicrhau y gall yr ymgeisydd arddangos y sgiliau angenrheidiol i lwyddo. Bydd y cyflwyniadau'n parhau rhwng 5 a 7 munud, yn cynnwys ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

**Syniadau o dan thema Dinasyddiaeth:**

- Cyflwyno gwaith elusennol mudiad penodol, yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol a gwerthuso effaith y gwaith hwnnw.
- Cyflwyniad ar waith Masnach Deg gan drafod byd masnach yn gyffredinol a gwerthuso llwyddiant Masnach Deg.
- Hawliau merched a dynion/Hawliau dynol.
- Agweddau ar grefydd benodol

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

CYFLWYNIAD UNIGOL AR SAIL YMCHWIL: RÔL YR ATHRO A RÔL YR YMGEISYDD

## RÔL YR ATHRO

**Sicrhau dealltwriaeth (athro ac ymgeiswyr) o ofynion y dasg a'r bandiau marcio a gwrando ar enghreifftiau o gyflwyniadau fydd ar gael.**

***Edrych ar y Canllawiau Llafar ar wefan adnoddau CBAC sy'n cynnwys cynghorion.***

**Gwirio dewis yr ymgeisydd**

***A yw'r testun yn mynd i arwain at gyflwyniad byrlymus a didwyll? A oes cyfle i ddadansoddi syniadau?***

**Sicrhau mai nodiadau cryno fydd gan yr ymgeisydd er mwyn osgoi darllen.**

**Rhoi ystyriaeth ofalus i holl ofynion y bandiau marcio wrth asesu a chadw unrhyw nodiadau fydd gan yr ymgeisydd.**

***Peidio ag ymyrryd yn ddiangen ar ganol y cyflwyniad.***

## RÔL YR YMGEISYDD

**Dewis testun sydd o ddiddordeb gwirioneddol**

**Ymchwilio i'r pwnc drwy ddefnyddio cylchgronau/llyfrau cyfair/pamffledi, gwrando ar raglenni teledu neu holi pobl**

**Llunio nodiadau cryno fydd o gymorth wrth gadw strwythur y cyflwyniad**

***Mae'n bwysig cofio nad tasg ddarllen yw hon.***

**Ystyried cynulleidfa wrth ddefnyddio gwrthrychau a thechnoleg, cyflwyno'n naturiol ac ateb cwestiynau'n hyderus**

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

## CYFLWYNIAD UNIGOL AR SAIL YMCHWIL: ENGHREIFFTIAU O WEITHGAREDDAU PARATOI

**Ystyried Testunau Posibl**

- Rhannu'r dosbarth yn bum grŵp
- Pob grŵp i gael cerdyn yn nodi un o'r pum thema
- Chwalu syniadau am y thema a nodi testunau posib
- Pasio'r cerdyn thema i'r grŵp nesaf (ailadrodd nes bod y grwpiau i gyd wedi gweld pob thema)
- Rhestr gynhwysfawr o destunau posibl gan y dosbarth
- Wrth ddod i ddeall gofynion y dasg a'r bandiau marciau'n well gall y grwpiau ystyried y cwestiynau: Pa destun sydd fwyaf difyr i gynulleidfa? Pa destun sy'n cynnig digon o fanylder? Pa destun sy'n apelio fwyaf er mwyn cyflwyno'n frwdfrydig? Pa agweddau gwahanol y gellir eu cyflwyno? A yw'n destun heriol? A yw'n destun gwreiddiol?

**Ymarfer Sgiliau**

- Paratoi cardiau yn nodi testunau cyffredin y gellir eu cyflwyno heb wneud gwaith ymchwil e.e. gwyliau/teulu/ffrind gorau/diddordebau/arwr/profiad gwaith/yr ardal leol
- Rhoi amser i lunio nodiadau
- Cyflwyno gwybodaeth am y testun o flaen grŵp
- Gweddill y grŵp, wrth iddynt wrando, i nodi cwestiynau i'w gofyn ar derfyn y cyflwyniad
- Defnyddio'r cynllun marcio i asesu cyfoedion

**Ystyried agweddau ar bwnc**

- Cardiau yn nodi testunau posibl
- Parau i ddewis testun
- Llunio rhestr o agweddau gwahanol ar y pwnc e.e. y diwydiant twristiaeth yng Nghymru – twristiaeth gynnar, mannau poblogaidd yng Nghymru, **agweddau pobl** tuag at dwristiaid, **cyfraniad twristiaid at yr economi**
- Ystyried a oes agweddau ar y testun yn gofyn am ddadansoddi e.e. gyda'r testun hwn mae'r agweddau wedi eu duo yn cynnig cyfle i ddadansoddi a dehongli

**Ystyried Cynulleidfa**

- Rhoi nodiadau/cyflwyniad parod i grŵp ynghŷd â chardiau yn nodi dull penodol o gyflwyno e.e. yn araf fel malwen/yn undonog neu heb newid y llais/yn gyflym/gyda phen i lawr/yn herciog/heb frwdfrydedd
- Gwerthuso'r perfformiadau a thrafod pam na ddylid defnyddio'r dulliau hyn o gyflwyno i gynulleidfa
- Llunio rhestr o sgiliau cyflwyno sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal diddordeb cynulleidfa – amrywio llais/newid goslef/pwyllo/naturioldeb/edrych ar y gynulleidfa
- Defnyddio'r cyflwyniad y tro hwn i berfformio mewn dull mwy difyr

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

**Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol**

## CYFLWYNIAD UNIGOL AR SAIL YMCHWIL: ENGHREIFFTIAU O WEITHGAREDDAU PARATOI

**Creu Cwestiynau**

- Athro i gyflwyno pwnc/gwrando ar enghraifft
- Disgyblion i lunio cwestiynau tra maent yn gwrando
- Athro i ateb y cwestiynau
- Gwerthuso pa gwestiynau oedd fwyaf llwyddiannus. Pa rai oedd yn ennyn ateb llawn? Pa rai oedd yn gaeedig? Pa rai oedd yn berthnasol/amherthnasol/teg/annheg?
- Dod i gasgliad ynglŷn â'r hyn sy'n gwneud cwestiwn da

**Gwerthuso Sgiliau**

- Edrych ar fwletin newyddion/rhaglen ddogfen/gwrando ar raglenni radio
- Pa rai oedd yn ddifyr? Pam? Beth oedd y dull cyflwyno oedd yn apelio fwyaf ac yn cynnal diddordeb? Pa fath o iaith oedd yn cael ei defnyddio?
- Dod i gasgliad ynglŷn â dulliau cyflwyno i gynnal diddordeb cynulleidfa

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: LLAFARYSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

CYFLWYNIAD UNIGOL AR SAIL YMCHWIL: SUT MAE LLWYDDO?

| Sut mae llwyddo? | ✓ | × |
|---|---|---|
| **Dewis Testun** | ✓ Un o'r 5 thema a osodir gan CBAC<br>✓ Dewis testun y mae gennych ddiddordeb gwirioneddol ynddo<br>✓ Testun y gellir ei gyflwyno mewn modd difyr er mwyn apelio at y gynulleidfa<br>✓ Testun gyda digon o agweddau gwahanol iddo<br>✓ Testun sy'n cynnig her a chyfle i ddadansoddi | × Dewis testun rhy gymhleth nad ydych yn ei ddeall yn iawn<br>× Dewis testun â geirfa gymhleth ac anghyfarwydd<br>× Testun na ellir ei gyflwyno mewn modd difyr o flaen cynulleidfa<br>× Testun syml ac arwynebol heb wahanol agweddau |
| **Ymchwilio** | ✓ Ymchwil o wahanol ffynonellau'n cynnig golwg wahanol ar y pwnc<br>✓ Llunio cynllun yn nodi'n glir pa agweddau ar y pwnc rydych chi'n ymchwilio iddyn nhw<br>✓ Ymchwilio i dermau pwnc Cymraeg | × Gormod o wybodaeth fydd yn arwain at gyflwyniad sy'n rhestr o ffeithiau |
| **Llunio Nodiadau** | ✓ Llunio nodiadau - nid brawddegau llawn a pharagraffau<br>✓ Nodiadau cryno fydd o gymorth i gadw strwythur eich cyflwyniad<br>✓ Trefnu nodiadau i wahanol agweddau'r pwnc | × Ysgrifennu nodiadau rhy fanwl heb chwynnu gwybodaeth- dim ond 5-7 munud fydd gennych chi i gyflwyno<br>× Llunio nodiadau ar un agwedd ar y pwnc yn unig<br>× Ysgrifennu brawddegau a pharagraffau - nid tasg ddarllen mo hon |
| **Cyflwyno** | ✓ Cyflwyno'n naturiol - dim darllen<br>✓ Cyflwyno'n eglur<br>✓ Edrych ar eich cynulleidfa<br>✓ Cyfleu eich diddordeb yn y pwnc<br>✓ Ystyried eich cynulleidfa a defnyddio arddull ddifyr<br>✓ Cyflwyno'n bwyllog ac yn drefnus<br>✓ Defnyddio *PowerPoint* neu wrthrychau a delweddau i gyfoethogi'r cyflwyniad lle bo hynny'n briodol<br>✓ Cadw o fewn y terfyn amser<br>✓ Delio â chwestiynau'n hyderus<br>✓ Cyflwyno gwahanol agweddau<br>✓ Dadansoddi'r pwnc yn ogystal â chyflwyno ffeithiau e.e. "Mae boddi Capel Celyn wedi cael effaith ar genedlaetholdeb yng Nghymru…"<br>✓ Defnyddio cywair iaith priodol - llafar a naturiol<br>✓ Defnyddio termau pwnc Cymraeg/cystrawennau a gramadeg yn gywir | × Siarad yn aneglur/undonog<br>× Rhuthro<br>× Ceisio cyfleu gormod o wybodaeth<br>× Darllen nodiadau<br>× Cyflwyniad byr/llawer rhy hir<br>× Rhestru gwybodaeth/ffeithiau heb ddadansoddi<br>× Geiriau a thermau pwnc Saesneg/ cystrawennau chwithig/gwallau gramadegol<br>× Defnyddio cywair iaith rhy ffurfiol |

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO:

## Tasg 2 – Ymateb a Rhyngweithio (Trafodaeth Grŵp)

### Pwyntiau Allweddol:

- Asesiad Diarholiad sy'n gyfwerth â 15% o'r asesiad cyfan.
- Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn cael dewis y sbardun sy'n apelio fwyaf atynt gan fod hyn yn arwain at drafodaethau mwy didwyll, byrlymus a gwreiddiol a byddant yn argyhoeddi.
- **Ni ddylid defnyddio'r cyfnod hwn i sgriptio'r drafodaeth.**
- Wrth ymarfer tasgau tebyg yn y dosbarth gellir asesu pa ddisgyblion sy'n cydweithio'n dda ac yn perfformio ar yr un band. Mae'n bwysig dwyn hyn i ystyriaeth wrth osod grwpiau ar gyfer eu hasesiad terfynol.
- Dylid rhoi cyfleoedd cyson i ymgeiswyr ymarfer eu sgiliau cyn cyfnod yr asesu fel eu bod yn trafod, mynegi barn, datblygu sylwadau, rhesymu, cynnig tystiolaeth, rhyngweithio a holi cwestiynau'n naturiol a hyderus.

## PARATOI I ADDYSGU


SECTION: ORACY EXAM LEVEL: GCSE

EXAMPLES OF POSSIBLE ACTIVITIES

Example Activities:

USEFUL INTERACTIVE RESOURCES

**Cliciwch ar y ddelwedd ar y chwith** i weld awgrymiadau am weithgareddau paratoi a disgrifiadau bras o berfformiadau ar bob band marciau.

Bydd CBAC yn darparu dewis o dair tasg a byddant yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol. Canieteir wythnos i baratoi a gall yr ymgeiswyr ymchwilio i'r pwnc trwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd/cylchgronau neu wrando ar y newyddion.

Gall athrawon roi arweiniad a chynnig cyngor cyffredinol i'r ymgeiswyr. Dylai'r athro sicrhau mai nodiadau cryno'n unig sydd gan yr ymgeiswyr ac nad ydynt yn sgriptio'u trafodaeth gan y bydd hyn yn arwain at berfformiad herciog ac annidwyll ac o'r herwydd ni fydd y drafodaeth yn ateb gofynion y bandiau marciau o ran cywair priodol, datblygu syniadau na rhyngweithio naturiol.

Dylid gadael i'r grŵp drafod yn gwbl annibynnol gan ymyrryd dim ond pan fo gwir angen cefnogaeth i newid cyfeiriad neu ddatblygu sylwadau a chynnig tystiolaeth.

- **Deunyddiau ymarfer** Gellir defnyddio'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol gan CBAC (linciau isod) i ymarfer y dasg hon. Ceir sbardunau ar y themâu **Diwedd y Gân yw'r Geiniog, Byw yn Iach, Dyn yn Dinistrio** a **Digartrefedd, Pleidlais i mi?**

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

**Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol**

ADRAN: LLAFAR | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

## YMATEB A RHYNGWEITHIO (TRAFODAETH GRŴP): RÔL YR ATHRO A RÔL YR YMGEISYDD

### RÔL YR ATHRO

**Cynnig cyfleoedd cyson i ymgeiswyr ymarfer eu sgiliau ac i gydweithio gydag amrywiaeth o ddisgyblion eraill.**

***Defnyddio sbardunau enghreifftiol CBAC i ymarfer y dasg.***

**Caniatáu i'r ymgeiswyr ddewis eu testun gan fod hyn yn arwain at fynegi barn sy'n argyhoeddi a pherfformiadau mwy hyderus**

**Cynnig cyngor ac arweiniad yn ystod y cyfnod paratoi**

**Sicrhau nad yw'r grwpiau'n sgriptio'u trafodaeth**

**Rhoi ystyriaeth ofalus i holl ofynion y bandiau marcio wrth asesu a chadw unrhyw nodiadau fydd gan yr ymgeisydd.**

***Peidio ag ymyrryd yn ddiangen ar ganol y drafodaeth.***

**Ystyried y ffin amser a ganieteir (tua 10 munud) a gofyn i'r grwpiau grynhoi eu sylwadau a therfynu'r drafodaeth**

### RÔL YR YMGEISYDD

**Dewis sbardun sy'n apelio ac y gellir ei drafod gydag argyhoeddiad**

**Ymchwilio i'r pwnc drwy ddefnyddio'r we, darllen papurau newydd/ cylchgronau neu wrando ar y newyddion.**

***Bydd tystiolaeth ychwanegol yn sicrhau ffresni a gwreiddioldeb yn y drafodaeth.***

**Llunio nodiadau cryno fydd o gymorth wrth gadw strwythur y drafodaeth ac i gynnig tystiolaeth**

***Ni ddylid sgriptio'r dasg.***

**Mynegi barn, cyflwyno tystiolaeth, trafod gwahanol agweddau, newid cyfeiriad trafodaeth, datblygu sylwadau, ymateb i eraill a holi**

***Dylid defnyddio cywair iaith priodol, geirfa addas i'r dasg a thalu sylw i gywirdeb.***

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

## YMATEB A RHYNGWEITHIO (TRAFODETH GRŴP): ENGHREIFFTIAU O WEITHGAREDDAU PARATOI

**Datblygu sgiliau ymateb personol**

- Gellir gwylio bwletin newyddion/rhaglen ddogfen/darllen stori sydd yn y newyddion.
- Dylai'r grwpiau drafod y newyddion.
- Dylid trafod ymateb fel dosbarth cyfan gan wrando ar farn pobl eraill ac ystyried gwahanol safbwyntiau.
- Daw’r ymgeiswyr yn fwy hyderus o’u gallu i fynegi barn am destunau eang a’u gallu i ymateb i eraill.
- Daw’r ymgeiswyr yn fwy ymwybodol o faterion cyfoes.

**Ymarfer ymateb i ystod o bynciau cyfarwydd**

- Bydd angen cardiau ac arnynt ddatganiadau e.e. *Mae gwisg ysgol yn rhan hanfodol o deimlo’n rhan o ysgol.*
- Caniateir dau funud i drafod cyn symud at y cerdyn nesaf.
- Gellir ymestyn yr amser trafod wrth ail ymweld â’r dasg.

**Defnyddio tystiolaeth**

- Gellir defnyddio’r un datganiadau â’r gweithgaredd uchod ar bapur A4.
- Dylai pob grŵp gael dau funud i restru tystiolaeth o blaid ac yn erbyn y datganiad.
- Dylid cylchdroi’r testunau nes bydd tudalen lawn o dystiolaeth.
- Dylid defnyddio’r taflenni i gynnal trafodaeth ddeng munud ar bob testun yn ei dro.

**Strwythuro trafodaeth**

- Gellir dosbarthu cardiau yn cynnwys testun a thri chwestiwn/datagniad am y testun hwnnw.
- Dylai'r grwpiau ddefnyddio’r cwestiynau/datganiadau i strwythuro testun.
- Gellir defnyddio sbardunau enghreifftiol CBAC i wneud y dasg hon hefyd.
- Wrth i’r sgiliau strwythuro trafodaeth wella gall yr ymgeiswyr eu hunain lunio cwestiynau/datganiadau i gyd-fynd â thestun.

**Datblygu sylwadau-consertina**

- Nodwch destun trafodaeth ar frig papur A4.
- Gadewch fwlch cyn nodi un agwedd/datganiad/cwestiwn perthnasol a pharhewch i wneud hyn nes bydd y papur yn llawn.
- Plygwch y papur fel consertina fel mai dim ond y testun sydd i’w weld.
- Dylai pob grŵp drafod y testun ar y papur a phan fo angen cymorth i ddatblygu’r drafodaeth cânt agor y consertina i ddatgelu agwedd/datganiad/cwestiwn perthnasol.

**Cyfarwyddo â’r bandiau marciau**

- Dylid defnyddio disgrifiadau’r bandiau marciau fel Meini Prawf Llwyddiant wrth asesu gwaith cyfoedion.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

**Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol**

YMATEB A RHYNGWEITHIO (TRAFODAETH GRŴP): DISGRIFIAD O BERFFORMIADAU AR WAHANOL FANDIAU

**Band 1**
Bydd yr ymgeiswyr yn mynegi barn yn fyr ac yn syml a bydd yr athro o bosib yn ymyrryd er mwyn sicrhau ymateb. Gwneir gosodiadau byr heb fawr o ddatblygu na thystiolaeth. Gall yr ymgeiswyr ymateb i eraill ond gwneir hyn yn fyr ac yn achlysurol. Bydd ystod gyfyng o eirfa a phatrymau iaith gan yr ymgeisydd a gall fod ei allu ieithyddol yn cyfyngu ar ei allu i fynegi ei farn yn eglur.

**Band 2**
Bydd yr ymgeisydd yn cyfrannu'r berthnasol i'r drafodaeth ac yn dangos y gallu i fynegi barn yn ddigon pendant gan ddatblygu ambell sylw. Bydd yr ymgeiswyr yn ymateb i'w gilydd ac o bosib yn holi cwestiynau. Trafodir gwahanol agweddau ar y pwnc gan ddangos manylder ar adegau. Defnyddir peth ystod o eirfa a phatrymau amrywiol.  Bydd gwallau gramadegol ac o bosib ychydig o eiriau Saesneg. Bydd yr ymgeiswyr yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa.

**Band 3**
Bydd yr ymgeisydd yn mynegi barn yn eglur, yn naturiol ac yn gyson gan ddatblygu mwyafrif y sylwadau. Bydd yn ymateb yn gyson i eraill gan ddechrau holi a herio. Cyflwynir tystiolaeth i gefnogi sylwadau a bydd llawer o'r hyn a ddywedir yn argyhoeddi. Trafodir sawl agwedd ar y pwnc yn eithaf manwl. Bydd y drafodaeth yn un eithaf pwrpasol. Defndyddir ystod dda o eirfa ac er y bydd ychydig wallau, bydd yr iaith yn dda ar y cyfan. Dangosir ymwybyddiaeth o gywair iaith priodol a bydd ychydig o fwrlwm i'r drafodaeth.

**Band 4**
Bydd hwn yn berfformiad cadarn, naturiol a digon hyderus a gall yr ymgeisydd fynegi barn yn hyderus a phwrpasol.  Bydd yn datblygu sylwadau yn gyson ac yn ystyried sylwadau eraill gan werthuso acymateb yn briodol. Ceir trafodaeth fanwl a defnyddir tystiolaeth berthnasol yn gyson.  Datblygir y drafodaeth yn gyson a symudir at agwedd newydd yn ddiymdrech.  Bydd yr iaith yn gadarn a'r eirfa yn eang.  Defnyddir cywair iaith priodol a bydd gan yr ymgeisydd afael sicr o ran cywirdeb.  Bydd gallu ieithyddol yr ymgeisydd yn ei alluogi i fynegi ei hun yn eglur.

**Band 5**
Ceir trafodaeth aeddfed a threiddgar gyda gwreiddioldeb, didwylledd a ffresni.  Bydd y drafodaeth yn argyhoeddi.  Defnyddir tystiolaeth yn gynnil a bydd yr ymgeisydd yn ymateb yn gyson i sylwadau eraill er mwyn datblygu'r drafodaeth.  Bydd yn herio a holi.  Bydd yr ymgeisydd yn meddu ar ddealltwriaeth aeddfed o'r pwnc a drafodir ac o faterion cyfoes.  Defnyddir ystod eang iawn o eirfa ymestynnol a defnyddir cywair iaith priodol yn hyderus a naturiol. Bydd gan yr ymgeisydd afael sicr iawn ar eirfa a phatrymau a bydd ei afael ar ramadeg yn sicr.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

# YMATEB A RHYNGWEITHIO (TRAFODAETH GRŴP): SUT MAE LLWYDDO?

| Sut mae llwyddo? | ✓ | × |
|---|---|---|
| **Dewis Testun** | ✓ Un o'r 3 sbardun a osodir gan CBAC<br>✓ Dewis testun y gall y grŵp cyfan ei drafod<br>✓ Dewis testun perthnasol fydd yn arwain at drafod naturiol a didwyll | × Dewis testun nad yw'r grŵp cyfan yn gallu uniaethu ag ef |
| **Ymchwilio** | ✓ Ymchwil o wahanol ffynonellau'n cynnig golwg wahanol ar y pwnc<br>✓ Ymchwil personol yn arwain at allu trafod gyda mwy o argyhoeddiad<br>✓ Rhannu/grwpio nodiadau i arwain at drafod gwahanol agweddau ar y pwnc<br>✓ Ymchwilio i dermau pwnc Cymraeg | × Gormod o wybodaeth fydd yn arwain at aelodau'r grŵp yn ailadrodd ffeithiau/tystiolaeth heb fynegi barn |
| **Llunio Nodiadau** | ✓ Llunio nodiadau - nid brawddegau llawn a pharagraffau<br>✓ Nodiadau cryno fydd o gymorth i gadw strwythur y drafodaeth<br>✓ Trefnu nodiadau i wahanol agweddau'r drafodaeth<br>✓ Rhestru tystiolaeth yn gryno fel y gellir cyfeirio ati'n hawdd | × Ysgrifennu nodiadau rhy fanwl fydd yn tarfu ar naturioldeb y drafodaeth<br>× Llunio nodiadau ar un agwedd ar y pwnc yn unig<br>× Ysgrifennu brawddegau a pharagraffau - nid tasg ddarllen mo hon<br>× Sgriptio'r drafodaeth |
| **Trafod** | ✓ Trafod yn naturiol<br>✓ Siarad yn eglur<br>✓ Ymateb i aelodau eraill y grŵp er mwyn datblygu pwyntiau<br>✓ Esbonio pwyntiau a godir ac ymhelaethu arnynt<br>✓ Cynnig tystiolaeth i gefnogi safbwynt<br>✓ Defnyddio profiadau personol i gyfoethogi'r drafodaeth<br>✓ Trafod yn annibynnol ar yr athro<br>✓ Sicrhau tegwch i bawb yn y grŵp<br>✓ Holi aelodau eraill y grŵp<br>✓ Defnyddio geirfa mynegi barn yn naturiol<br>✓ Cadw o fewn y terfyn amser<br>✓ Delio â chwestiynau'n hyderus<br>✓ Trafod gwahanol agweddau ar y pwnc yn drefnus<br>✓ Defnyddio cywair iaith priodol - llafar a naturiol<br>✓ Defnyddio termau pwnc Cymraeg/cystrawennau a gramadeg yn gywir | × Siarad yn aneglur<br>× Darllen nodiadau<br>× Trafodaeth fer/ llawer rhy hir<br>× Rhestru gwybodaeth/ffeithiau heb fynegi barn<br>× Geiriau a thermau Saesneg/cystrawennau chwithig/gwallau gramadegol<br>× Defnyddio cywair iaith rhy ffurfiol<br>× Cyflwyno pwyntiau newydd heb orffen trafod agwedd arall ar y pwnc<br>× Cyflwyno pwynt hollol newydd heb ymateb i bwynt newydd a godwyd gan aelod arall o'r grŵp |

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

| DARLLEN | |
|---|---|
| MAES ASTUDIO | DISGRIFIAD |
| Cwestiynau Aml Ddewis | Canllawiau i'r dasg a gweithgareddau. |
| Adalw Gwybodaeth | Canllawiau i'r dasg a gweithgareddau. |
| Sgiliau Crynhoi | Canllawiau i'r dasg a gweithgareddau. |
| Dadansoddi Technegau Ysgrifennu | Canllawiau i'r dasg a gweithgareddau. |
| Gwerthuso a Myfyrio | Canllawiau i'r dasg a gweithgareddau. |
| Cyfuno Gwybodaeth | Canllawiau i'r dasg a gweithgareddau. |
| Cymharu Testunau | Canllawiau i'r dasg a gweithgareddau. |

ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO: CWESTIYNAU AML-DDEWIS

**Ateb cwestiynau aml-ddewis**

## Pwyntiau Allweddol:

- Bydd o leiaf tri chwestiwn aml-ddewis yn y ddau bapur arholiad.
- Rhoddir pedwar ateb neu fwy i ddewis ohonynt.
- Bydd y cwestiynau aml-ddewis yn profi amrediad o sgiliau darllen yn cynnwys:
  - Lleoli gwybodaeth
  - Dod o hyd i ystyr gair
  - Rhesymu geiriol
  - Deall gwybodaeth mewn cyd-destun
  - Bwriad awdur/testun
- Bydd rhai o'r atebion yn dod o'r testun a bydd ambell wrthdynnwr.
- Ni ddylid cymryd yn ganiataol mai cwestiynau syml fydd y cwestiynau aml-ddewis: gallant ofyn am adalw gwybodaeth uniongyrchol ond gallant hefyd ofyn am ddealltwriaeth gyffredinol, am ddehongli cyn dod i gasgliad neu am fyfyrio ar gynnwys neu ffurf.

## PARATOI I ADDYSGU




**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** er mwyn manylu ar rai camau o'r broses a gweld enghreifftiau o weithgareddau posibl yn gysylltiedig ag ateb cwestiynau aml-ddewis.

Bydd angen dilyn pum cam wrth fynd ati i ateb cwestiwn aml-ddewis:

1. Darllen y testun
2. Darllen ac ystyried y cwestiwn
3. Lleoli'r wybodaeth berthnasol
4. Ystyried/diystyru gwybodaeth a dod i gasgliad
5. Dewis ateb

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

## ATEB CWESTIYNAU AML-DDEWIS: MANYLU AR RAI CAMAU O'R BROSES

**Dyma fanylu ar rai camau o'r broses:**

### Darllen y cwestiwn

Dylid talu sylw manwl i union ofynion y cwestiwn a'r dewisiadau gan y bydd yn gofyn am wybodaeth mewn ffurf wahanol i'r testun o bosibl (e.e. y testun yn nodi amser penodol megis 3.54 pm a'r cwestiwn yn nodi cyn 4 o'r gloch y prynhawn), neu'n gofyn am werthuso gwahanol nodweddion y testun cyn dod i gasgliad (e.e. bwriad awdur/math o ysgrifennu).

### Lleoli'r Wybodaeth

Bydd angen ystyried cyd-destun cyn lleoli gwybodaeth benodol mewn testun.  Rhaid i ymgeiswyr ddwyn i gof wahanol rannau'r testun ac ystyried i ba ran y bydd yr ateb yn perthyn.  Gall wedyn ganolbwyntio ar baragraff neu adran benodol cyn craffu ymhellach gan ddefnyddio'r dewisiadau yn y cwestiwn fel modd o wirio eu bod ar y trywydd cywir yn gyson.

### Ystyried/Diystyru Gwybodaeth

Wrth chwilio am wybodaeth berthnasol i ateb y cwestiwn, bydd diystyru gwybodaeth yn rhan allweddol o'r broses. Bydd diystyru gwybodaeth yn fodd o wirio a chadarnhau cywirdeb y dewis terfynol**.**

### Rhai mathau o gwestiynau:

Faint o'r gloch mae'r trên yn cyrraedd yr orsaf?

Beth wnaeth y bachgen ar ôl iddo ddarganfod y gyllell?

Beth yw ystyr yr idiom..?

Beth yw bwriad yr awdur?

Edrychwch ar y tabl a nodwch pa wlad enillodd fwyaf o fedalau.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

| ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU |
|---|---|

ATEB CWESTIYNAU AML-DDEWIS: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

**Gweithgaredd 1:**

- Gofynnwch i aelodau'r dosbarth ddod â thestunau o'u dewis i'r wers (poster, pamffled, tudalen o gylchgrawn, erthygl papur newydd, erthygl oddi ar y we, rysait, darn o lên meicro, cerdd neu ddetholiad o ryddiaith, er enghraifft).
- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a'u cyfarwyddo i ddewis un o'r testunau. Dylai'r grŵp fynd ati i drafod cwestiynau aml ddewis posibl ar gyfer y darn darllen a ddewiswyd. Gellir gofyn cwestiynau adalw gwybodaeth syml neu roi cynnig ar lunio cwestiynau mwy heriol sy'n gofyn am wybodaeth ar ffurf wahanol (e.e. aralleirio'r wybodaeth), neu am werthuso agweddau ar y darn (e.e. bwriad awdur) neu am ddehongli (e.e. ystyr gair). Caiff y grŵp ddeng munud i lunio o leiaf dri chwestiwn aml-ddewis. Dylid cofio bod angen i fwy nag un o'r dewisiadau ddod o'r darn darllen ac y dylid rhoi pedwar dewis o leiaf ym mhob cwestiwn.
- Ar ôl deng munud dylid rhoi'r darn darllen i'r grŵp nesaf a fydd yn ychwanegu cwestiynau pellach. Gellir ailadrodd y broses hon unwaith eto.
- Un ai yn yr un wers (os oes modd cael copiau i bob grŵp o'r testunau a'r cwestiynau neu fodd o'u sganio a'u dangos ar fwrdd gwyn) neu yn y wers nesaf, gellir trafod natur y cwestiynau a osodwyd a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i'w hateb. Mae'r broses hon yn bwysig wrth baratoi'r dysgwyr gan y bydd angen iddynt fynd drwy'r un broses yn gwbl annibynnol ar ddiwrnod yr arholiad.
- Dylid ateb y cwestiynau fel dosbarth cyfan a mynd drwy'r broses o ddiystyru gwybodaeth amherthnasol cyn penderfynu'n derfynol ar yr ateb cywir.

**Gweithgaredd 2:**

- Manteisiwch ar gyfleoedd o fewn yr ysgol i gyflwyno cwestiynau aml ddewis yn seiliedig ar destunau byw e.e. cyhoeddiadau i ddisgyblion, posteri ar waliau, llythyrau i ddisgyblion. Bydd ymarfer cyson yn hogi sgiliau'r dysgwyr ac nid oes rhaid i'r gweithgareddau gymryd gormod o amser.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

ADRAN: DARLLEN LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO: ADALW GWYBODAETH

**Adalw Gwybodaeth**

Pwyntiau Allweddol:

- Fel rhan o'r asesiad darllen bydd gofyn i ddysgwyr ganfod ac adalw gwybodaeth o destun(au) darllen.
- Mae sgiliau adalw gwybodaeth yn bwysig er mwyn profi dealltwriaeth dysgwyr o'r hyn maent wedi ei ddarllen.
- Mae sgiliau adalw gwybodaeth yn ddefnyddiol mewn bywyd bob dydd lle bydd angen i ddarllenwyr ganfod gwybodaeth benodol a'i chyflwyno'n gywir ac i bwrpas.
- I wneud hynny mae angen i ddysgwyr gip/ llithr-ddarllen, chwilio, lleoli a dethol gwybodaeth berthnasol o destun(au) darllen sy'n rhoi gwybodaeth.
- Mae Fframwaith Llythrennedd Pisa yn nodi:
  *Gall tasgau adalw gynnwys amrywiol raddau o amwysedd. Er enghraifft, efallai y byddangen i'r dysgwr ddewis gwybodaeth benodol, fel amser neu le mewn testun neu dabl. Gallai fersiwn anos o'r un math o dasg gynnwys chwilio am wybodaeth gyfystyr. Weithiau mae hyn yn ymwneud â sgiliau categoreiddio, neu gall ofyn am wahaniaethu rhwng dau ddarn tebyg o wybodaeth. Gellir mesur gwahanol lefelau o fedrusrwydd trwy amrywio'r elfennau sy'n cyfrannu at anhawster y dasg.*

PARATOI I ADDYSGU



**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** i gael enghreifftiau o weithgareddau posibl yn gysylltiedig â sgiliau adalw gwybodaeth.

Mae gofyn i ddysgwyr ddarllen y testun yn ofalus er mwyn deall y cyd-destun ac ateb gofynion y cwestiwn/cwestiynau.

Mae'r broses o ganfod ac adalw gwybodaeth yn gofyn am sgiliau sy'n gysylltiedig â dethol, casglu ac adalw gwybodaeth.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

## SUT I FYND ATI I ADALW GWYBODAETH O DESTUN:

- Mae angen darllen y darn cyfan yn ofalus er mwyn deall y cyd-destun.
- Mae angen darllen y cwestiwn yn ofalus er mwyn gwybod yn union beth i chwilio amdano yn y testun.
- Dylid cip/llithr ddarllen y testun eto gan chwilio am/lleoli'r manylion angenrheidiol yn ôl gofynion y cwestiwn.
- Er mwyn darganfod y wybodaeth angenrheidiol bydd rhaid cysylltu gwybodaeth benodol sydd yn y cwestiwn gyda gwybodaeth neu eiriad tebyg yn y testun.
- Os nad yw'r wybodaeth angenrheidiol yn weladwy ar unwaith yn y testun, bydd gofyn chwilio a dethol y wybodaeth berthnasol er mwyn ateb y cwestiwn/cwestiynau.
- Dylid defnyddio cliwiau megis penawdau, dolen neu dabl er enghraifft, er mwyn darganfod y wybodaeth berthnasol.
- Cyflwyno'r ateb(ion) yn yr union fodd a nodir yn y cwestiwn e.e. geiriau unigol, brawddeg neu roi tic mewn blychau ar gyfer cwestiwn aml-ddewis. Os mai un ateb y gofynnir amdano, er enghraifft, rhaid sicrhau mai dyna a roddir yn yr ateb.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

**Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol**

## ATEB CWESTIYNAU ADALW GWYBODAETH: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

**Gweithgardd 1:**

1. Darllenwch y testun canlynol gyda’r dosbarth: Y Côd Cefn Gwlad ( Thema Amgylchfyd - Darn Darllen 1)

2. Gan ystyried diffiniadau Pisa, trafodwch gyda’r dosbarth bwrpasau gwahanol destunau darllen.

3. Gofynnwch i’r dosbarth ystyried pa fath o destun a beth yw pwrpas y testun dan sylw.

4. Mae’r cwestiwn yn gofyn i ddarllenwyr nodi dau beth sydd yn dangos mai rheolau neu gyfarwyddiadau sydd yn y darn. Trafodwch y math o eiriau neu nodweddion eraill a geir mewn rheolau neu gyfarwyddiadau gyda’r dosbarth.

5. Gofynnwch i’r dysgwyr chwilio am gliwiau o bethau sy’n dangos mai rheolau/ cyfarwyddiadau a geir yma (e.e. gallant fod yn ferfau gorchmynnol, pwyntiau bwled, rhestr).

**Gweithgaredd 2:**

1. Darllenwch y testun canlynol gyda’r dosbarth: Mewn Perygl (Thema Amgylchfyd - Darn Darllen 2).

2. Gan ystyried diffiniadau Pisa, trafodwch wahanol bwrpasau testunau darllen gyda’r dosbarth.

3. Gofynnwch i’r dosbarth ystyried pa fath o destun a beth yw pwrpas y testun dan sylw.

4. Darllenwch y cwestiwn gyda’r dosbarth. Mae’r cwestiwn aml-ddewis yn gofyn i ddysgwyr ddewis pa rai (o’r rhestr a roddir) sydd mewn perygl ym Mhrydain ac i’w nodi yn y blychau. Rhoddir 3 marc, felly mae hyn yn awgrymu 3 ateb cywir, er na nodir hynny.

5. Trafodwch sut i chwilio am gliwiau yn y darn e.e. y geiriau allweddol - *perygl* a *Prydain*.

6. Dywedwch wrth y dysgwyr am chwilio am enwau 3 chreadur sydd mewn perygl.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

## ATEB CWESTIYNAU ADALW GWYBODAETH: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

**Gweitharedd 3:**

1. Gofynnwch i'r dysgwyr chwilio am enghreifftiau o reolau neu gyfarwyddiadau e.e. mewn llyfrau gwybodaeth, rheolau gemau, cyfarwyddiadau maent yn ei ddarllen bob dydd ayyb.

2. Gofynnwch i'r dysgwyr osod cwestiwn adalw gwybodaeth / aml-ddewis yn seiliedig ar eu darnau darllen. Yna, i gyfnewid gyda phartner i ateb y cwestiwn ar y darn darllen.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU


MAES ASTUDIO: SGILIAU CRYNHOI

**Sgiliau Crynhoi**

Pwyntiau Allweddol:

- Fel rhan o'r asesiad darllen bydd gofyn i ddysgwyr ganfod a chrynhoi gwybodaeth o destun(au) darllen.
- Dylai dysgwyr wybod bod crynodeb yn ddogfen fer neu ddatganiad sy'n cyflwyno prif bwyntiau dogfen hirach, sy'n cael ei ysgrifennu yng ngeiriau'r darllenwr.
- Mae crynhoi yn ddull effeithiol o brofi dealltwriaeth dysgwyr o'r hyn maent wedi ei ddarllen.
- Mae sgiliau crynhoi yn ddefnyddiol i ddysgwyr er mwyn:
  - deall prif bwyntiau testun
  - cynhyrchu trosolwg o destun
  - cyflwyno gwybodaeth
  - casglu gwybodaeth wrth ymchwilio i bwnc.

## PARATOI I ADDYSGU


ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

SGILIAU CRYNHOI: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

Gweithgaredd 1:

Gweithgaredd 2:

Gweithgaredd 3:

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Creu Crynodeb**

**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** i chwilio am enghreifftiau o weithgareddau posibl yn gysylltiedig â sgiliau crynhoi.

Weithiau gellir gofyn am wybodaeth benodol mewn crynodeb.

Sut i greu crynodeb:

- Darllen y testunau yn ofalus er mwyn deall y cyd-destun
- Tanlinellu neu uwcholeuo'r prif bwyntiau
- Chwilio am unrhyw benawdau neu unrhyw gliwiau all helpu i grynhoi'r hyn sydd mewn paragraff
- Ceisio cyfuno'r geiriau/brawddegau sydd wedi eu huwcholeuo a'u hysgrifennu yn eu geiriau eu hunain
- Peidio ag ychwanegu unrhyw wybodaeth arall na safbwyntiau personol
- Cadw'r nodiadau'n fyr neu ddefnyddio pwyntiau bwled
- Ystyried beth yn union yw gofynion y cwestiwn dan sylw; gwneud defnydd priodol o'r nodiadau a wnaethpwyd er mwyn ateb y cwestiwn.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

[CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015]

[CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol]

[CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol]

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Gweithgaredd 1:**

1. Gofynnwch i ddysgwyr, mewn parau, i gymryd eu tro i siarad am 2-3 munud am bwnc penodol (e.e. gwyliau, ysgol, penwythnos, gêm ayyb).

2. Tra bydd un dysgwr yn siarad gall y llall grynhoi'r prif bwyntiau. Gellir gofyn iddo wedyn gyflwyno'r crynodeb mewn amser penodol.

3. Yna, dylid cyfnewid rôl a gwneud yr un peth eto.

**Gweithgaredd 2:**

1. Darllenwch ddarn o destun neu erthygl papur newydd i'r dosbarth.

2. Gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r cynnwys i 30 - 50 gair er enghraifft ( dibynnu ar hyd y darn).

**Gweithgaredd 3:**

1. Darllenwch y darn canlynol (o'r Thema Rhoi Organau - Darn Darllen 5) gyda'r dysgwyr.

2. Gofynnwch iddynt grynhoi prif bwyntiau'r testun ynglŷn â newid yn y drefn o roi organau dan y penawdau canlynol: (Gallent weithio mewn parau - un i lenwi un golofn a'r llall i lenwi'r golofn arall.)

| Beth sy'n rhaid ei wneud os nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad | Beth sy'n rhaid ei wneud os nad ydynt eisiau bod yn rhoddwr organau |
| --- | --- |
| | |

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

3. Gofynnwch i ddysgwr gyflwyno i eraill/dosbarth beth yn union fydd y drefn newydd o roi organau.

Rhoi Organau Cymru – newidiadau yn y drefn o roi organau yng Nghymru...

O 1 Rhagfyr 2015 yng Nghymru, byddwch yn gallu dewis dweud eich bod wedi cydsynio i roi organau, a hynny drwy'r system 'feddal' newydd o optio allan. Felly, os ydych yn gwybod nad oes gennych unrhyw wrthwynebiad i roi eich organau, ni fydd angen i chi wneud dim byd. Ond os ydych yn gwybod nad ydych eisiau bod yn rhoddwr, gallwch optio allan. Caiff ei galw'n system feddal o optio allan gan y bydd y teulu bob amser yn cael ei gynnwys.

Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl unrhyw wrthwynebiad i fod yn rhoddwr organau ar ôl iddynt farw. Ond nid yw'r mwyafrif ohonom yn gwneud unrhyw beth yn ei gylch, fel rhoi ein henwau ar y gofrestr rhoddwyr organau.

O dan system feddal o optio allan nid oes angen i chi wneud dim er mwyn cael eich ystyried yn rhoddwr oherwydd o dan y gyfraith, gellid 'ystyried' eich bod wedi cydsynio. Os nad ydych am fod yn rhoddwr, gallwch 'optio allan'.

Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth yn awr gan y bydd y system bresennol o roi organau yn parhau'n weithredol tan 1 Rhagfyr 2015. Tan hynny, os ydych chi'n gwybod eich bod eisiau bod yn rhoddwr, y ffordd orau o wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod hynny yw drwy ymuno â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

| ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU |
|---|---|

## MAES ASTUDIO: DADANSODDI TECHNEGAU YSGRIFENNU

**Dadansoddi technegau Ysgrifennu**

Pwyntiau Allweddol:

- Dylai dysgwyr sicrhau eu bod yn cyfeirio'n gyson at y cwestiwn er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn ateb holl ofynion y cwestiwn dan sylw.
- Pan fydd hi'n briodol (ac i gyrraedd y bandiau marciau uchaf) dylai dysgwyr drafod technegau'r awdur.
- Dylid cefnogi unrhyw ddatganiad gyda chyfeiriad at y testun/dyfyniad o'r testun.
- Wrth gyfeirio at dechnegau'r awdur, dylai'r dysgwyr sicrhau eu bod yn trafod eu heffeithiolrwydd a'u pwrpas yn eu cyd-destun, os mai dyna yw gofynion y cwestiwn.

## PARATOI I ADDYSGU



Gall dysgwyr gyfeirio at yr elfennau canlynol wrth ymdrin â thechnegau awdur:

**Cynnwys:** Dylai dysgwyr edrych yn graff ar yr hyn sy'n cael ei ddweud (ffeithiau, ffigurau, enghreifftiau, dyfyniadau ayyb) ac egluro/rhoi sylwadau arnynt os gallant wneud hynny.

**Strwythur:** Dylai dysgwyr ystyried y modd mae'r awdur wedi trefnu a strwythuro'r wybodaeth yn y testun, er enghraifft, y camau mewn dadl neu mewn proses. Ydy'r dilyniant yn synhwyrol a phwrpasol? Ydy'r pwyntiau wedi eu trefnu fel bod y darllenydd yn gweld cymhariaeth neu gyferbyniad?

**Iaith/ieithwedd:** dylai dysgwyr chwilio am eiriau neu ymadroddion allweddol sy'n cyfrannu at effaith y testun, a dylent geisio egluro/trafod eu heffeithiolrwydd er mwyn ateb gofynion y cwestiwn dan sylw. Dylai unrhyw ddyfyniadau fod yn glir a phwrpasol heb fod yn rhy hir. Wrth ystyried ieithwedd gallent ystyried effaith unrhyw eiriau neu adran arbennig.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

DADANSODDI TECHNEGAU YSGRIFENNU:

**Dull:** Dylai dysgwyr geisio adnabod dulliau'r awdur o greu effaith (e.e. cymariaethau, gosod achos cadarnhaol neu negyddol ayb).

**Cyflwyniad** - lluniau, diagramau, tablau, lliwiau, bychau ayyb: Dylai'r dysgwyr sicrhau eu bod yn cyfeirio'n benodol at yr elfennau hyn yn eu cyd-destun gan egluro eu cynnwys a'u heffaith neu eu pwrpas.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Gweithgaredd 1:**

Trafodwch y gwahanol dechnegau y mae awduron yn eu defnyddio mewn testunau, yn arbennig testunau ffeithiol (gweler y rhestr yn Paratoi i Ddysgu). Chwiliwch am enghreifftiau mewn testunau darllen.

**Gweithgaredd 2:**

Cwestiwn A11 Darn Darllen 7 Thema Yr Amgylchfyd

Trafodwch agwedd yr awdur yn y darn darllen. Beth yw ei neges? Sut mae'n cyfleu hyn yn y darn?

Medrwch ddyfynnu neu gyfeirio at enghreifftiau penodol o'r darn darllen i gefnogi eich pwyntiau.

**Enghraifft o waith disgybl (Cwestiwn A9 Darn Darllen 5 Thema Rhyfel)**

Ydych chi'n meddwl bod blog Bryn Tawe yn llwyddo i annog darllenwyr i fynd ar daith debyg? Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich safbwynt.

Yn fy marn i mae blog Bryn Tawe yn llwyddo i annog darllenwyr i fynd ar daith debyg gan eich bod yn gweld gymaint o lefydd newydd, anhygoel a all ddenu sylw'r darllenydd megis 'Mametz Wood', 'Musse de Abris' a llawer mwy. Hefyd, mae'r blog yn llwyddo i'n denu wrth ddefnyddio ansoddeiriau megis 'arbennig', 'llawer', sydd yn ansoddeiriau canmoladwy a chadarnhaol sydd yn denu'r darllenydd i fynd i gael y profiadau hyn. Yn ogystal, mae'r blog yn sôn am 'wario llawer o arian yn y siop siocled gyfagos'; mae hyn yn denu darllenwyr gan fod y rhan fwyaf o bobl yn hoffi sioceld. Credaf fod y geiriau olaf, 'mwynhau mas draw' yn annog y dafrllenydd gan bod y geiriau hyn mor berswadiol gan y gwyddom eu teimadau gwerth chweil. Yn ogystal, gan mai rhain yw'r geiriau olaf ym meddwl y darllenydd mae'n cadw atgof positif ohono sydd yn eich annog i wneud rhywbeth tebyg eich hunain.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO: MYFYRIO A GWERTHUSO

**Myfyrio a Gwerthuso**

Pwyntiau Allweddol:

- Bydd ambell gwestiwn yn gofyn am fyfyrio ar y testun a gwerthuso agweddau penodol ohono.
- Bydd hyn yn cynnwys mynegi barn bersonol yn seiliedig ar dystiolaeth o'r darn darllen.
- Diffiniad PISA o fyfyrio a gwerthuso yw:
  '...defnyddio dealltwriaeth, syniadau neu agweddau tu hwnt i'r testun er mwyn perthnasu'r wybodaeth a ddarperir yn y testun i faes profiad a syniadau'r unigolyn.'
- Disgwylir i unrhyw ddealltwriaeth allanol fod o fewn profiad ymgeiswyr oedran TGAU.
- Gall dealltwriaeth allanol ddeillio o brofiadau personol neu o syniadau a awgrymir yn y cwestiwn.

PARATOI I ADDYSGU


ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MYFYRIO A GWERTHUSO: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

Gweithgaredd 1

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** er mwyn manylu ar rai camau o'r broses a gweld enghreifftiau o weithgareddau posibl yn gysylltiedig ag ateb cwestiynau Myfyrio a Gwerthuso.

Mae Fframwaith Llythrennedd Pisa yn nodi:

Mae *myfyrio a gwerthuso cynnwys testun* yn gofyn i'r darllenwr gysylltu gwybodaeth mewn testun i wybodaeth o ffynonellau allanol. Rhaid i'r darllenwyr hefyd asesu'r honiadau a wnaethpwyd yn y testun yn erbyn ei ddealltwriaeth ei hun o'r byd. Yn aml gofynnir i ddarllenwyr fynegi ac amddiffyn eu safbwyntiau eu hunain. I wneud hyn, rhaid i ddarllenwyr allu datblygu dealltwriaeth o beth a ddywedir ac a fwriedir mewn testun.

**Enghraifft o gwestiwn: A ydych chi'n cytuno â'r awdur y dylai pawb fod yn gwneud rhyw fath o ymarfer corff yn ddyddiol?**

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: DARLLEN LEFEL ARHOLIAD: TGAU

## MYFYRIO A GWERTHUSO:

Mae *myfyrio a gwerthuso ffurf testun* yn gofyn i ddarllenwyr gymryd cam yn ôl o'r testun, i'w ystyried yn wrthrychol ac i werthuso ei ansawdd a'i briodoldeb.  Mae gwybodaeth benodol o strwythur testun, yr arddull sy'n nodweddiadol o wahanol fathau o destunau a chyweiriau yn chwarae rhan bwysig yn y tasgau hyn…Mae gwerthuso pa mor llwyddiannus yw awdur wrth bortreadu nodwedd benodol neu allu awdur i berswadio darllenwr yn dibynnu nid yn unig ar ddealltwriaeth wreiddiol, ond hefyd ar y gallu i adnabod cynildeb ieithyddol.

**Enghraifft o gwestiwn:  Pa mor llwyddiannus yw'r darn hwn wrth geisio perswadio pobl i ymweld â Chymru?**

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

**Gweithgaredd 1**

- Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen Darn Darllen 6 yn y papur 'Cerddoriaeth' (Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol CBAC).
- Dylai'r dysgwyr ddarllen cwestiwn A11 y papur a'i drafod mewn parau. Beth yn union mae'r cwestiwn yn ei ofyn? Sawl rhan sydd i'r cwestiwn? Pa wybodaeth neu dystiolaeth fydd angen eu defnyddio i ateb y cwestiwn? Pa sgiliau fydd yn cael eu rhoi ar waith?
- Cyflwynwch y syniad o *fyfyrio a gwerthuso.* Edrych am ddiffiniadau mewn geiriaduron ac ar y we. Yng nghyd-destun y cwestiwn hwn, beth yw ystyr *myfyrio a gwerthuso*?
- Gwrandewch ar adborth gan y dosbarth a dod i gytundeb ar ofynion y cwestiwn a sut y bydd myfyrio a gwerthuso yn cynorthwyo gydag ateb y cwestiwn.

**Myfyrio** Meddwl yn ddwys am/craffu ar/troi a throsi yn y meddwl

- Bydd angen craffu ar y darn darllen i weld beth sy'n cael ei ddweud am y cymeriadau
- Bydd angen troi a throsi'r wybodaeth i weld beth rydyn ni'n ei ddysgu am y cymeriadau
- Bydd angen meddwl yn ofalus beth mae'r wybodaeth yn ei ddangos am y cymeriadau

**Gwerthuso** Pwyso a mesur/cloriannu/pennu gwerth

- Bydd angen pwyso a mesur **sut** mae'r awdur yn cyfleu sut gymeriadau ydyn nhw e.e. pa dechnegau arddull sy'n cael eu defnyddio?
- Bydd angen cloriannu pa mor effeithiol yw'r technegau arddull wrth gyfleu natur y cymeriadau

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

ADRAN: DARLLEN LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MYFYRIO A GWERTHUSO: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

- Gwaith grŵp – dylid defnyddio'r tabl isod i baratoi ar gyfer ateb y cwestiwn:

| | Beth rydyn ni'n ei ddysgu am y cymeriadau? | Sut mae'r awdur yn cyfleu sut gymeriad ydy ef/hi? |
|---|---|---|
| Myng-gu | Gwisgo esgidiau synhwyrol sy'n sgleinio - dangos bod esgidiau cyfforddus yn bwysicach na rhai ffasiynol. Person balch sy'n cadw ei hesgidiau'n lân. | Defnyddio'r ansoddair "synhwyrol" i ddisgrifio'i hesgidiau a hyn hefyd yn awgrymu ei bod yn gymeriad synhwyrol. Yr awdur yn cyferbynnu esgidiau Myng-gu ac Anti June, sydd yn "uchel ac yn hardd". |
| Anti June | | |
| Ifan Glyn/y tad | | |
| Angharad/y ferch | | |

- Dylid defnyddio'r tabl i lunio ateb ysgrifenedig fel grŵp. Gellir bwydo geirfa i'r rhai sydd angen cynhaliaeth:

Mae ______ yn gymeriad…

Rwy'n gwybod hyn oherwydd…

Mae'r dyfyniad "________" yn dangos bod y cymeriad yn …

Mae hyn yn awgrymu…

Rwy'n credu bod y cymeriad yn…

Llwydda'r awdur i ddangos bod y cymeriad yn ________ drwy…

Defnyddia'r awdur dechneg ________ i gyfleu'r cymeriad…

Mae'r dechneg hon yn effeithiol wrth gyfleu cymeriad oherwydd…

ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

**Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol**

- Cyfnewid atebion â grŵp arall a thrafod ateb y grŵp arall. A yw holl agweddau'r cwestiwn yn cael eu hateb? A yw'r ateb yn myfyrio ar natur y cymeriadau? A yw'r ateb yn gwerthuso sut mae'r awdur wedi mynd ati i gyfleu natur y cymeriadau? A oes tystiolaeth i gefnogi'r sylwadau?

- Adolygu union ofynion y cwestiwn a sut i fynd ati i ateb cwestiwn o'r fath yn llwyddiannus.

- Dewis cwestiwn tebyg o un o'r papurau enghreifftiol eraill ac ateb yn unigol i wirio a yw pawb yn gallu rhoi'r sgiliau priodol ar waith i ateb y cwestiwn.

**Gweithgaredd 2**

**(Defnyddir yr un darn darllen â'r gweithgaredd blaenorol ond gellir defnyddio'r un dull gydag unrhyw ddarn darllen).**

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen Darn Darllen 6 yn y papur 'Cerddoriaeth' (Deunyddiau enghreifftiol CBAC).

- Dylid rhannu'r dosbarth yn 4 grŵp a rhoi un cymeriad i bob grŵp ei astudio.

- Dylai'r grŵp nodi sylwadau cyffredinol am y cymeriadau ar *post-it* (myfyrio) - un sylw i bob *post-it* e.e. Myng-gu taclus/gofalus/ymarferol.

- Dylid gadael *y post-its* ar ganol y bwrdd a'r grwpiau i gylchdroi.

- Tasg nesaf y grŵp yw darllen argraffiadau'r grŵp blaenorol o'r cymeriad ac ychwanegu tystiolaeth ar ffurf cyfeiriad at y darn darllen neu ddyfyniad.

- Mae angen i'r grŵpiau gylchdroi eto a'r tro hwn bydd angen edrych ar **sut** mae'r awdur wedi creu'r argraff hwn o'r cymeriad (gwerthuso) e.e. defnyddio'r ansoddair "synhwyrol" i ddisgrifio'i hesgidiau'n awgrymu ei bod hi'n berson synhwyrol.

- Dylid cylchdroi unwaith eto a'r tro hwn bydd y grwpiau'n llunio ateb i gwestiwn A11 y papur 'Cerddoriaeth' gan ddefnyddio'r wybodaeth ar y *post-its*.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

| ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU |
|---|---|

## MAES ASTUDIO: CYFUNO GWYBODAETH

**Cyfuno Gwybodaeth**

Pwyntiau Allweddol:

- Bydd un dasg cyfuno gwybodaeth ym mhob cyfres o arholiadau (naill ai yn Uned 2 neu yn Uned 3).
- Mae cyfuno gwybodaeth yn golygu dod â gwybodaeth o fwy nag un testun ynghyd i ateb cwestiwn.
- Gall y cwestiwn ofyn i'r ymgeisydd gymharu dau neu fwy o destunau.

## PARATOI I ADDYSGU


ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

CYFUNO GWYBODAETH: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

Gweithgaredd 1:

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen darnau darllen 1-5 yn y papur enghreifftiol ar gyfer Uned 2 dan y thema 'Bwyd'.
- Trafodwch y darnau mewn parau/grwpiau a nodi'r hyn sy'n gyffredin yn y darnau ar ddwy lefel - gwybodaeth uniongyrchol ac arwyddocâd y wybodaeth (hynny yw, beth mae'r wybodaeth yn ei ddangos/awgrymu am y thema.
- Astudiwch y cwestiwn: Ystyriwch ddarnau darllen 1-5 a nodwch pa mor bwysig yw bwyd yng Nghymru. Cofiwch roi … Pa wybodaeth benodol fydd ei hangen i ateb y cwestiwn?
- Trafodwch y darnau gan nodi gwybodaeth berthnasol ar ffurf tabl. … ymgeiswyr.
- Wrth fynd ati i ateb y cwestiwn gellir trafod geirfa a phatrymau defnyddiol gan gadw union eiriad y cwestiwn mewn cof:

Mae bwyd yn bwysig yng Nghymru…

oherwydd…

Mae'r wybodaeth yn narnau ____ yn dangos/awgrymu…

Yr hyn sy'n gyffredin yn y darnau/Un nodwedd gyffredin yn y darnau yw…

Rwy'n dweud hyn oherwydd…

Mae hyn yn profi…

- Dysgwyr i ateb y cwestiwn yn ysgrifenedig
- Cyfnewid gwaith ac asesu gwaith partner gan ddefnyddio'r cynllun marcio fel meistr wirio

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** i fanylu ar rai camau o'r broses ac i gael enghreifftiau o weithgareddau posibl yn gysylltiedig ag ateb cwestiynau Cyfuno Gwybodaeth

Bydd cwestiwn Cyfuno Gwybodaeth yn gofyn i ymgeiswyr adalw gwybodaeth berthnasol o fwy nag un ffynhonnell a chyflwyno'r wybodaeth ar y cyd yng nghyd-destun y cwestiwn.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

[CBAC](#) > [TGAU Cymraeg Iaith](#) > [Manyleb o 2015](#)

[CBAC](#) > [TGAU Cymraeg Iaith](#) > [Deunyddiau Asesu Enghreifftiol](#)

[CBAC](#) > [TGAU Cymraeg Iaith](#) > [Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol](#)

[Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol](#)

ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

## CYFUNO GWYBODAETH:

Wrth hyfforddi ymgeiswyr i ateb cwestiwn Cyfuno Gwybodaeth bydd angen sicrhau eu bod yn darllen sawl darn (dau ddarn neu fwy) ar yr un thema neu destun yn gyson yn y dosbarth. Rhaid wedyn astudio gofynion y cwestiwn yn ofalus cyn mynd ati i gasglu'r wybodaeth a'i chyfuno. Bydd angen ystyried y cwestiynau canlynol wrth ateb y cwestiwn:

- Pa wybodaeth yn union y mae'r cwestiwn yn gofyn amdano?
- Ble mae'r wybodaeth berthnasol ym mhob un o'r darnau unigol?
- Pa wybodaeth sy'n gyffredin yn y darnau?
- A ellir grwpio'r wybodaeth er mwyn ei chyflwyno'n drefnus wrth ateb y cwestiwn?
- A yw'r holl wybodaeth a ddewiswyd yn berthnasol i'r cwestiwn?
- A ddefnyddiwyd gwybodaeth o'r holl ddarnau a nodir yn y cwestiwn?

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

## CYFUNO GWYBODAETH: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

**Gweithgaredd 1:**

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen darnau darllen 1-5 yn y papur enghreifftiol ar gyfer Uned 2 dan y thema ‘Bwyd’.
- Trafodwch y darnau mewn parau/grwpiau a nodi’r hyn sy’n gyffredin yn y darnau ar ddwy lefel - gwybodaeth uniongyrchol ac arwyddocâd y wybodaeth (hynny yw, beth mae’r wybodaeth yn ei ddangos/awgrymu am y thema).
- Astudiwch y cwestiwn: Ystyriwch ddarnau darllen 1-5 a nodwch pa mor bwysig yw bwyd yng Nghymru. Cofiwch roi rhesymau dros eich ateb. Sawl darn darllen sydd angen eu hystyried? Pa rai ydyn nhw? Pa wybodaeth benodol fydd ei hangen i ateb y cwestiwn?
- Trafodwch y darnau gan nodi gwybodaeth berthnasol ar ffurf tabl. Gellir gwahaniaethu’r dasg hon drwy lenwi’r golofn ar y chwith i rai dysgwyr gyda dysgwyr eraill yn cael rhai agweddau ac eraill yn meddwl am agweddau cyffredin eu hunain. Yn yr un modd, gellir llenwi rhai blychau gwybodaeth fel arweiniad i ymgeiswyr.
- Wrth fynd ati i ateb y cwestiwn gellir trafod geirfa a phatrymau defnyddiol gan gadw union eiriad y cwestiwn mewn cof:

  Mae bwyd yn bwysig yng Nghymru…

  oherwydd…

  Mae’r wybodaeth yn narnau ____ yn dangos/awgrymu…

  Yr hyn sy’n gyffredin yn y darnau/Un nodwedd gyffredin yn y darnau yw…

  Rwy’n dweud hyn oherwydd…

  Mae hyn yn profi…

  - Dysgwyr i ateb y cwestiwn yn ysgrifenedig
  - Cyfnewid gwaith ac asesu gwaith partner gan ddefnyddio’r cynllun marcio fel rhestr wirio

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

| *Bwyd yn bwysig yng Nghymru?* | Darn 1 **Gŵyl Fwyd Maelor** | Darn 2 **Y Plât Bwyta'n Iach** | Darn 3 **StatsCymru** | Darn 4 **golwg 360** | Darn 5 **Blog S4C** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effaith ar bobl Cymru** | | | | Y diwydiant yn cyflogi pobl | |
| **Rhywbeth sy'n cael ei ddathlu/ poblogaidd** | Cynnal gŵyl i ddathlu bwyd | | | Sêr Michelin yn cael eu gwobrwyo i fwytai rhagorol a dathliad o hynny yn y cyfryngau Cymraeg | Rhaglen deledu Gymraeg am fwyd yn dangos poblogrwydd bwyd yng Nghymru |
| **Busnesau bwyd llwyddiannus** | | | | | |

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

ADRAN: DARLLEN | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO: CYMHARU TESTUNAU

Cymharu Testunau

Pwyntiau Allweddol:

- Fel rhan o'r asesiad darllen bydd gofyn i ddysgwyr gymharu gwybodaeth o destunau darllen.
- Mae tasgau cymharu yn gofyn i'r dysgwyr ddod â dau ddarn neu fwy o wybodaeth ynghyd er mwyn gweld y tebygrwydd neu'r gwahaniaeth rhyngddynt.
- Gallai'r tasgau ofyn am gymharu'r testunau o ran eu cynnwys neu eu harddull/ cyflwyniad neu'r ddau.
- Mae Fframwaith Llythrennedd Pisa yn nodi:

Er mwyn prosesu gwybodaeth benodol neu wybodaeth sydd ymhlyg yn un ffynhonnell neu fwy mewn tasgau o'r fath, yn aml rhaid i'r darllenydd ddeall perthynas neu gategori a fwriadwyd i ateb y cwestiwn drwy'r hyn sydd ymhlyg yn y testun.

## PARATOI I ADDYSGU




**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** i gael enghreifftiau o weithgareddau posibl yn gysylltiedig â sgiliau cymharu gwybodaeth.

- Mae gofyn i ddysgwyr ddarllen y testunau yn ofalus er mwyn deall y cyd-destun ac ateb gofynion y cwestiwn/cwestiynau.
- Rhaid iddynt hefyd ystyried beth yn union yw gofynion y cwestiwn dan sylw. Trafodwch y gwahanol bosibiliadau gyda hwy.

Sut i gymharu testunau:

- Tradodwch beth yw 'cymharu' gyda'r dosbarth.
- Mewn grwpiau, gofynnwch i'r dosbarth wneud rhestr fer o eiriau cymharu (e.e. yn debyg, yn wahanol, cyffelyb...)
- Fel gwaith cartref, gofynnwch i'r dosbarth ddod a dwy enghraifft o destun i'r ysgol lle gallant eu cymharu (e.e. hysbysebion, poster). Yn y dosbarth, gofynnwch iddynt greu siart i gymharu prif nodweddion y ddwy enghraifft - o ran cynnwys a chyflwyniad. Yna, gallant gyflwyno hyn i'r dosbarth cyfan.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Gweithgaredd 1:**

- Darllenwch y testunau canlynol (dau lythyr) gyda'r dosbarth.
- Trafodwch y ddau lythyr gyda'r dosbarth/gofynnwch i'r dysgwyr drafod y ddau lythyr gyda phartner neu grŵp. Beth yw pwnc y ddau lythyr?
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod rhesymau'r ddau awdur dros ysgrifennu eu llythyrau. Beth yw bwriad yr awduron?
- Dywedwch wrthynt am ystyried pwy fyddai darllenwyr y llythyrau – ai'r un math o ddarllenwyr?
- Gofynnwch i'r dysgwyr ail ddarllen y darnau, darganfod ac yna danlinellu neu uwcholeuo elfennau sydd yn debyg/annhebyg rhyngddynt. Gallent nodi rhain ar ffurf tabl hefyd, pe dymunent.
- Er mwyn ateb gofynion y cwestiwn hwn, rhaid i'r dysgwyr gyfeirio at ddau bwynt penodol, sef rhesymau'r ddau awdur dros ysgrifennu eu llythyrau a phwy fyddai eu darllenwyr. Dylent hefyd gyfeirio at y testun i gefnogi eu pwyntiau.
- Mae'r cwestiwn yn gofyn iddynt drafod gan gymharu. Disgwylir i'r dysgwyr felly ysgrifennu'n estynedig, mewn brawddegau llawn a pharagraffau er na nodir hynny yma) - trafod, cymharu ac enghreifftio/dyfynnu.

**Darn Darllen 1: (Thema Hamdden ac Antur) Gwrthwynebu Agor Canolfan Rafftio Dŵr Gwyn**

**Darn Darllen 2: (Thema Hamdden ac Antur) Penwythnos hir yng Nghaerdydd**

| | Tebyg | Annhebyg |
|---|---|---|
| Darn Darllen 1 | | |
| Darn Darllen 2 | | |

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

ADRAN: DARLLEN LEFEL ARHOLIAD: TGAU

CYMHARU TESTUNAU: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

**Enghraifft o waith disgybl (rhan o'r ateb cyfan)**
**(Cwestiwn A12 Thema Byd y Bêl)**
Brasil: Gwlad o Ddau Hanner
Cwpan y Byd – Seithfed Nef i'r Almaen

Mae Darn Darllen 4 a 5 yn sôn am Gwpan y Byd. Cymharwch y ddau ddarn gan ystyried:

- agwedd yr awduron at eu pwnc
- y modd y maen nhw'n cyflwyno'u gwybodaeth ac yn trafod y pwnc

Dylech gyfeirio at y testun i gefnogi eich pwyntiau.

Credaf mai bwriad yr awdur yn DD4 yw cyflwyno gwybodaeth am Brasil gan bwysleisio'r ochr dlawd sydd i'r wlad o gymharu â'r wedd gyfoethog sydd wedi'i gyfleu i'r byd yn ystod digwyddiad Cwpan y Byd 2014. Dywedir bod lefel y tlodi yn y wlad yn uwch o lawer na'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig; cyflea hyn fod gan Brasil dlodi mawr yn y wlad, sy'n annisgwyl i'r bobl sydd ddim yn gyfarwydd â'r wlad. Mae'r awdur hefyd yn codi ymwybyddiaeth am yr holl arian a wariwyd ar Gwpan y Byd 'mwy nag 4.5 biliwn doler UDA ...'. Credaf fod yr awdur yn ceisio cyfleu'r symiau enfawr o arian wariwyd ar yr achlysur gan gyferbynnu ag ochr dlawd y wlad.

Yna yn DD5, credaf mai agwedd yr awdur tuag at y pwnc yw ei sioc ef a sioc pawb oedd yn gwylio'r gêm ar ôl profi methiant syfrdanol Brasil 'roedd y sioc yn un gwbl anghfarwydd'. Mae'r awdur hefyd yn sôn am hanes y gêm gan bwysleisio'r effaith gafodd methiant Brasil ar y wlad – 'cywilydd llwyr!' Mae defnyddio'r math hyn o eiriau yn cyfleu'r cyffro yn ogystal âr canlyniad annisgwyl.

Ar ddechrau'r darn caiff cwestiwn rhethregol ei gynnwys 'Pwy sy'n mynd i ennill Cwpan y Byd?'. Mae'n effeithiol gan ei fod yn pwysleisio'r cwestiwn oedd ym meddyliau pob cefnogwr pêl-droed ar ddechrau Cwpan y Byd. Mae hefyd yn cyfleu barn yr awdur am ei obeithion am ennill y gystadleuaeth -'ai Lloegr?' Mae'r ffaith na cheir ateb i gwestiwn rhethregol yn cyfleu'r elfen annisgwyl sydd i'r enillydd.

Mae'r ddau ddarn darllen yn ymdrin â thema Cwpan y Byd, ond mae'r wybodaeth o ddau bersbectif gwahanol. Mae darn 4 wedi ei ysgrifennu cyn y gêm a darn 5 yn dilyn y gêm. Yn narn 4 cawn wybodaeth am safonau byw llawer o bobl y wlad, am y tlodi a'r 'cynlluniau modern nodedig wedi cymryd lle'r *favelas* sydd yn gyrru perchnogion y *favelas* i'r stryd.'

Mae darn 5 yn dangos Cwpan y Byd drwy bersbectif y camerau i weddill y byd, gan sôn am ganlyniadau'r gemau. Mae darn 4 yn dangos pa mor drist ac anffodus ydi bywydau pobl dlawd y wlad, lle mae darn 5 yn dangos tristwch a siom pêl-droed Brasil a gweddill y byd dros golli'r gêm. Mae awdur darn 4 yn gwneud i'r darllenwyr deimlo'n euog gan bigo ar ein cydwybod wrth sôn am dlodi gwlad Brasil 'Yno, mae tua chwarter y plant dan 5 oed yn dioddef o ddiffyg maeth'.

Mae'r awduron yn defnyddio ieithwedd wahanol , a cheir llun effeithiol yn narn 5, llun o gefnogwr Brasil a'i ddwylo yn gorchuddio ei wyneb mewn siom ar ôl methiant Brasil..

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

| YSGRIFENNU | |
|---|---|
| MAES ASTUDIO | DISGRIFIAD |
| **Naratif** | Canllawiau i ysgrifennu naratif gyda gweithgareddau / cwestiynau enghreifftiol / atebion enghreifftiol. |
| **Disgrifio** | Canllawiau i dasg ddisgrifio gyda gweithgareddau / cwestiynau enghreifftiol / atebion enghreifftiol. |
| **Esbonio** | Canllawiau i dasg esbonio gyda gweithgareddau / cwestiynau enghreifftiol / atebion enghreifftiol. |
| **Trafod** | Canllawiau i dasg drafod gyda gweithgareddau / cwestiynau enghreifftiol / atebion enghreifftiol. |
| **Perswâd** | Canllawiau i ysgrifennu perswadiol gyda gweithgareddau / cwestiynau enghreifftiol / atebion enghreifftiol. |
| **Prawf Ddarllen** | Canllawiau i dasgau prawf ddarllen gyda gweithgareddau. |

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO: NARATIF


**Naratif**

Pwyntiau Allweddol:

- Bydd cysylltiad thematig rhwng y tasgau ysgrifennu a'r deunydd darllen yn Uned 2 a 3 .
- Dylid hyfforddi dysgwyr sut i ddefnyddio a chymhwyso'r hyn maent wedi ei ddarllen i'w hysgrifennu eu hunain pan fydd hynny yn addas.
- Yn arholiad Uned 2, bydd gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu un darn o ysgrifennu o ddewis o ddau destun. Bydd disgwyl iddynt ysgrifennu naill ai tasg naratif, disgrifio neu esbonio. (35 marc - 20 am gyfathrebu a threfn a 15 am ysgrifennu'n gywir).
- Yn arholiad Uned 3, bydd gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu dau ddarn o ysgrifennu - tasgau trafod a pherswâd. (40 marc yr un - cyfathrebu a threfn: 20 + ysgrifennu'n gywir: 20).
- Dylai myfyrwyr fod yn gyfarwydd â'r gwahanol fathau o ysgrifennu, eu nodweddion o ran cynnwys ac iaith, beth yw eu pwrpas a phwy yw eu darllenwyr.

.

PARATOI I ADDYSGU



ADRAN: YSGRIFENNU LEFEL ARHOLIAD: TGAU

NARATIF:

Gweithgareddau enghreifftiol:

1. Trafodwch gyda'r dosbarth beth sydd ei angen mewn naratif.
2. Edrychwch ar enghreifftiau o ysgrifennu naratif a thrafodwch nhw.
3. Cynlluniwch ddarn o naratif drwy ddefnyddio diagram tebyg i hwn:



Cwestiynau enghreifftiol:

1. Rydych wedi bod mewn cyngerdd/sioe gerdd/gŵyl gerddorol. Ysgrifennwch flog yn ymateb i'r profiad. (Thema Cerddoriaeth)
2. Ysgrifennwch ddyddiadur/blog tri diwrnod yn sôn am ddewrder. (Thema Rhyfel)
3. Ysgrifennwch ddyddiadur taith neu ymweliad â rhyw fan arbennig.
4. Ysgrifennwch adroddiad i'ch papur bro yn adrodd hanes ymweliad/taith neu achlysur arall a gawsoch gyda'ch ysgol yn ddiweddar.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** i gael enghreifftiau o weithgareddau posibl ac enghreifftiau o ysgrifennu naratif.

Mae'r Fframwaith Pisa yn nodi:

*Naratif yw'r math o destun ble mae'r wybodaeth yn cyfeirio at nodweddion gwrthrychau mewn amser. Mae naratif fel arfer yn ateb cwestiynau yn ymwneud â phryd, neu ym mha drefn. Mae pam mae cymeriadau mewn straeon yn ymddwyn fel y maent yn gwestiwn pwysig arall y mae naratif yn ei ateb. Gall fod sawl ffurf i naratif. Mae straeon newyddion yn bwriadu i ddarllenwyr sefydlu eu barn annibynnol eu hunain o ffeithiau a digwyddiadau heb gael eu dylanwadu gan gyfeiriadau at farn yr adroddwr ei hun. Ymysg yr enghreifftiau o wrthrychau testun yn y categori naratif mae nofel, stori fer, drama, bywgraffiad, stribed gomig, ac adroddiad papur newydd ar ddigwyddiad.*

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

## NARATIF:

Mae'r canlynol yn angenrheidiol wrth ysgrifennu naratif:

- Gwybodaeth glir am yr hyn sy'n digwydd
- Ffeithiau pwysig e.e. pwy, beth, lle, pryd a pham
- Arddull addas i gynnal sylw'r darllenwyr
- Strwythur amlwg e.e. dechrau, canol a diwedd i stori/hanesyn

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

**Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol**


NARATIF:

**Gweithgareddau enghreifftiol:**

1. Trafodwch gyda'r dosbarth beth sydd ei angen mewn naratif.

2. Edrychwch ar enghreifftiau o ysgrifennu naratif a thrafodwch nhw.

3. Cynlluniwch ddarn o naratif drwy ddefnyddio diagram tebyg i hwn:




**Cwestiynau enghreifftiol:**

1. Rydych wedi bod mewn cyngerdd/sioe gerdd/gŵyl gerddorol. Ysgrifennwch flog yn ymateb i'r profiad. (Thema Cerddoriaeth)

2. Ysgrifennwch ddyddiadur/blog tri diwrnod yn sôn am ddewrder. (Thema Rhyfel)

3. Ysgrifennwch ddyddiadur taith neu ymweliad â rhyw fan arbennig.

4. Ysgrifennwch adroddiad i'ch papur bro yn adrodd hanes ymweliad/taith neu achlysur arall a gawsoch gyda'ch ysgol yn ddiweddar.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU


MAES ASTUDIO: DISGRIFIO

## Disgrifio

Pwyntiau Allweddol:

- Bydd cysylltiad thematig rhwng y tasgau ysgrifennu a'r deunydd darllen yn Uned 2 a 3 .
- Dylid hyfforddi dysgwyr sut i ddefnyddio a chymhwyso'r hyn maent wedi ei ddarllen i'w hysgrifennu eu hunain pan fydd hynny yn addas.
- Yn arholiad Uned 2, bydd gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu un darn o ysgrifennu o ddewis o ddau destun. Bydd disgwyl iddynt ysgrifennu naill ai tasg naratif, disgrifio neu esbonio. (35 marc - 20 am gyfathrebu a threfn a 15 am ysgrifennu'n gywir).
- Yn arholiad Uned 3, bydd gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu dau ddarn o ysgrifennu - tasgau trafod a pherswâd. (40 marc yr un - cyfathrebu a threfn: 20 + ysgrifennu'n gywir: 20).
- Dylai myfyrwyr fod yn gyfarwydd â'r gwahanol fathau o ysgrifennu, eu nodweddion o ran cynnwys ac iaith, beth yw eu pwrpas a phwy yw eu darllenwyr.

## PARATOI I ADDYSGU


ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

DISGRIFIO: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

**Gweithgareddau enghreifftiol:**

Darllenwch ddarn Darllen 5 (Thema Rhyfel) Newyddion. Tanlinellwch neu uwcholeuwch y ffeithiau canlynol:

1. Manylion sy'n disgrifio yr hyn a welodd aelodau blwyddyn 8 a 9 ar eu hymweliad â'r ffosydd.
2. Disgrifiadau o deimladau'r aelodau/disgyblion yn ystod yr ymweliad.

**Cwestiynau enghreifftiol:**

1. Rydych yn sefyll arholiad pwysig. Disgrifiwch y profiad. (Thema Bechgyn a Merched)
2. Rydych chi mewn gŵyl fwyd neu farchnad brysur yn eich tref leol. Ysgifennwwch ddisgrifiad o'r hyn sy'n digwydd yno. (Thema Bwyd)
3. Ysgrifennwch lythyr cais am swydd o'ch dewis chi. Dylech nodi eich rhinweddau personol a'ch sgiliau. (Thema Cerddoriaeth).
4. Ysgrifennwch ddyddiadur/blog yn disgrifio'n fanwl y golygfeydd a welsoch yn ystod taith neu ymweliad diweddar.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Assesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Assesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

Mae'r Fframwaith Pisa yn nodi:

*Disgrifio yw'r math o destun ble mae'r wybodaeth yn cyfeirio at nodweddion gwrthrychau. Mae'r cwestiynau nodweddiadol y mae testunau disgrifiadol yn rhoi ateb iddynt yn gwestiynau* ***beth****. Gall disgrifiadau fod ar sawl ffurf. Mae disgrifiadau argraffiadol yn cyflwyno gwybodaeth o safbwynt argraffiadau goddrychol o berthnasau, nodweddion, a chyfarwyddiadau. Mae disgrifiadau technegol yn cyflwyno gwybodaeth o safbwynt arsylliad gwrthrychol. Yn aml, mae disgrifiadau technegol yn defnyddio fformat testun pytiog megis diagramau a dyluniadau. Enghreifftiau o destunau yn y categori disgrifiad yw darlun o le penodol mewn llyfr taith neu ddyddiadur, catalog, map daearyddol, amserlen hediadau ar-lein neu ddisgrifiad o nodwedd, swyddogaeth neu broses mewn llawlyfr technegol.*

**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** i gael enghreifftiau o weithgareddau posibl ac enghreifftiau o ysgrifennu disgrifiadol.

.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Gweithgareddau enghreifftiol:**

Darllenwch ddarn Darllen 5 (Thema Rhyfel) Newyddion. Tanlinellwch neu uwcholeuwch y ffeithiau canlynol:

1. Manylion sy’n disgrifio yr hyn a welodd aelodau blwyddyn 8 a 9 ar eu hymweliad â’r ffosydd.
2. Disgrifiadau o deimladau’r aelodau/disgyblion yn ystod yr ymweliad.

**Cwestiynau enghreifftiol:**

1. Rydych yn sefyll arholiad pwysig. Disgrifiwch y profiad. (Thema Bechgyn a Merched)

2. Rydych chi mewn gŵyl fwyd neu farchnad brysur yn eich tref leol. Ysgifennwwch ddisgrifiad o’r hyn sy’n digwydd yno. (Thema Bwyd)

3. Ysgrifennwch lythyr cais am swydd o’ch dewis chi. Dylech nodi eich rhinweddau personol a’ch sgiliau. (Thema Cerddoriaeth).

4. Ysgrifennwch ddyddiadur/blog yn disgrifio’n fanwl y golygfeydd a welsoch yn ystod taith neu ymweliad diweddar.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU


## MAES ASTUDIO: ESBONIO

**Esbonio**

Pwyntiau Allweddol:

- Bydd cysylltiad thematig rhwng y tasgau ysgrifennu a'r deunydd darllen yn Uned 2 a 3 .
- Dylid hyfforddi dysgwyr sut i ddefnyddio a chymhwyso'r hyn maent wedi ei ddarllen i'w hysgrifennu eu hunain pan fydd hynny yn addas.
- Yn arholiad Uned 2, bydd gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu un darn o ysgrifennu o ddewis o ddau destun. Bydd disgwyl iddynt ysgrifennu naill ai tasg naratif, disgrifio neu esbonio. (35 marc - 20 am gyfathrebu a threfn a 15 am ysgrifennu'n gywir).
- Yn arholiad Uned 3, bydd gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu dau ddarn o ysgrifennu - tasgau trafod a pherswâd. (40 marc yr un - cyfathrebu a threfn: 20 + ysgrifennu'n gywir: 20).
- Dylai myfyrwyr fod yn gyfarwydd â'r gwahanol fathau o ysgrifennu, eu nodweddion o ran cynnwys ac iaith, beth yw eu pwrpas a phwy yw eu darllenwyr..

## PARATOI I ADDYSGU


ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

ESBONIO: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

**Gweithgareddau enghreifftiol:**

1. Gyda'r dosbarth edrychwch ar enghreifftiau o destunau esboniadol a thrafodwch eu nodweddion.
2. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu darn byr yn esbonio rhyw broses e.e. cylch dŵr, paratoadau ar gyfer y Nadolig, sut mae siocled yn cael ei wneud ... (cofio gwahaniaethu rhwng ieithwedd testun esboniadol ag un cyfarwyddiadol).

   Medrant lunio diagram/siart llif i lunio camau yn y broses, a'i gyflwyno i weddill y dosbarth.
3. Defnyddio Diagram Asgwrn Pysgodyn i gynllunio darn o ysgrifennu esboniadol.



ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** i gael enghreifftiau o weithgareddau posibl ac enghreifftiau o dasgau esbonio.

Beth ydy testun esboniadol?

- Mae ysgifennu esboniadol yn esbonio proses neu'n ateb cwestiwn.
- Mae'n esbonio sut neu pam mae rhywbeth yn digwydd.
- Defnyddir cysyllteiriau achos ac effaith yn aml e.e. oherwydd, felly ...
- Yn aml mae'n disgrifio camau mewn proses - yn gyntaf, yn ail, wedyn, yn olaf.
- Enghreifftiau posibl o ysgrifennu esboniadol ydy:
  - esboniad gwyddonol
  - cofnod gwyddoniadur
  - rhestrau cwestiwn ac ateb
  - cyfarwyddiadau e.e. sut i ddefnyddio peiriant golchi
  - rheolau chwarae gêm.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

ESBONIO:

Mae'r Fframwaith Pisa yn nodi:

*Mae'r testun yn rhoi esboniad o sut mae'r gwahanol elfennau yn perthyn i'w gilydd o fewn un elfen gyfan ystyrlon ac yn aml yn ateb cwestiynau am sut. Ymysg enghreifftiau yn y categori esboniad mae traethawd, diagram yn dangos model o gof, graff o dueddiadau poblogaeth, map cysyniad a chofnod mewn gwyddoniadur ar-lein.*

ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**


**Gweithgareddau enghreifftiol:**

1. Gyda'r dosbarth edrychwch ar enghreifftiau o destunau esboniadol a thrafodwch eu nodweddion.

2. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu darn byr yn esbonio rhyw broses e.e. cylch dŵr, paratoadau ar gyfer y Nadolig, sut mae siocled yn cael ei wneud ... (cofio gwahaniaethu rhwng ieithwedd testun esboniadol ag un cyfarwyddiadol).

   Medrant lunio diagram/siart lif i lunio camau yn y broses, a'i gyflwyno i weddill y dosbarth.

3. Defnyddio Diagram Asgwrn Pysgodyn i gynllunio darn o ysgrifennu esboniadol.




## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Cwestiynau enghreifftiol:**

**Cwestiwn 1: (Thema Bechgyn a Merched)**

Rydych chi'n meddwl bod yr ysgol yn trin bechgyn a merched yn wahanol.

Ysgrifennwch lythyr at y Pennaeth yn esbonio'ch pryderon.

**Cwestiwn 2: (Thema Bwyd)**

Ysgrifennwch daflen wybodaeth am fwyta'n iach a byw bywyd iach. (Yn ogystal ag ysgrifennu estynedig, gallwch gynnwys gwybodaeth bytiog megis tablau, diagramau ac yn y blaen ond peidiwch a threulio gormod o amser yn dylunio'r daflen.)

**Cwestiwn 2: (Thema Rhyfel)**

Ysgrifennwch erthygl i bapur newydd yn trafod ac yn esbonio eich syniadau am unrhyw agwedd/agweddau ar ryfel. Gallwch ysgrifennu am effeithiau rhyfel, canlyniadau rhyfel ac/neu ymateb pobl i ryfel.

*Enghraifft o waith disgybl (**rhan** o'r ateb cyfan):*

Nid milwyr yn unig oedd yn cael eu heffeithio gan ryfel. Roedd teuluoedd, ffrindiau a chariadon yn cael eu heffeithio hefyd. Pan oedd eu ffrindiau, meibion a chariadon yn dod adref mewn arch neu wedi eu hanafu'n ddrwg roedd ansawdd eu bywydau a'u calonnau yn cael eu torri oherwydd hynny.

Erbyn heddiw nid pobl yn bod yn hunanol neu yn anghytuno yw'r prif reswm am ryfel. Yn fy marn i, crefydd yw'r rheswm. Mae llawer o ryfeloedd yn cael eu hachosi gan bobl yn credu mewn credoau gwahanol i'w gilydd, a sut maent yn trin eraill o fewn eu crefydd. Unwaith eto, pobl ddiniwed sy'n cael eu heffeithio o ganlyniad i ryfel. Mae llawer iawn o deuluoedd yn gorfod ffoi o'u cartrefi oherwydd nad yw'n ddiogel iddynt aros yno rhagor.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

MAES ASTUDIO: TRAFOD

**Disgrifio**

Pwyntiau Allweddol:

- Bydd cysylltiad thematig rhwng y tasgau ysgrifennu a'r deunydd darllen yn Uned 2 a 3 .
- Dylid hyfforddi dysgwyr sut i ddefnyddio a chymhwyso'r hyn maent wedi ei ddarllen i'w hysgrifennu eu hunain pan fydd hynny'n addas.
- Yn arholiad Uned 2, bydd gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu un darn o ysgrifennu o ddewis o ddau destun. Bydd disgwyl iddynt ysgrifennu naill ai tasg naratif, disgrifio neu esbonio. (35 marc - 20 am gyfathrebu a threfn a 15 am ysgrifennu'n gywir).
- Yn arholiad Uned 3, bydd gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu dau ddarn o ysgrifennu - tasgau trafod a pherswâd. (40 marc yr un - cyfathrebu a threfn: 20 + ysgrifennu'n gywir: 20).
- Dylai myfyrwyr fod yn gyfarwydd â'r gwahanol fathau o ysgrifennu, eu nodweddion o ran cynnwys ac iaith, beth yw eu pwrpas a phwy yw eu darllenwyr.

## PARATOI I ADDYSGU



**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** i gael enghreifftiau o weithgareddau posibl ac enghreifftiau o ysgrifennu trafodaethol.

*Beth ydy testunau trafod?*

- *Math o ysgrifennu sy'n cyflwyno safbwynt am bwnc e.e.*
  - *Pamffled neu erthygl yn rhoi dwy ochr i ddadl*
  - *Erthygl olygyddol papur newydd*
  - *Adroddiad ar bwnc penodol, pwnc llosg neu ddadleuol efallai*
- *Gellir ystyried nifer o safbwyntiau cyn dod i farn.*
- *Bydd tystiolaeth/rhesymau yn cael eu cynnig i gefnogi safbwynt.*

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

| ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU |
|---|---|

## TRAFOD:

Gall y dysgwyr weithio’n unigol/pâr/grŵp/dosbarth wrth baratoi ar gyfer y dasg. Dylent ystyried

- Beth yw pwrpas y dasg/cwestiwn dan sylw.
- Pwy fydd y darllenwyr?
- Pa fath o ffurf ac ieithwedd fydd eu hangen? (e.e. defnydd o eiriau mynegi barn, cysylltеiriau i bwyso a mesur a rhesymu, ffurf briodol.)
- Beth yw nodweddion y ffurf?
- Pa wybodaeth o’r testun(au) darllen fydd yn bosibl i'w defnyddio? (Dylid annog yr ymgeiswyr i gywain y ffeithiau a’r rhesymau priodol, gan wneud nodiadau neu uwcholeuo ffeithiau.)
- Pa wybodaeth ychwanegol fydd ei hangen?

Dylid annog y dysgwyr i ymchwilio ymhellach i’r pwnc dan sylw.

**Yn unigol:**

- Cynllunio’r darn ysgrifenedig yn fanwl
- Ceisio ysgrifennu’n effeithiol a chywir ac i bwrpas gan ateb gofynion y cwestiwn cyfan
- Defnyddio ffeithiau i gefnogi eu safbwynt
- Ystyried gwahanol safbwyntiau

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

TRAFOD: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

**Cwestiynau enghreifftiol:**

**Cwestiwn 1: (Thema Hamdden ac Antur)**

**Rydych wedi bod ar daith neu ymweliad â rhyw le arbennig.**

Yn dilyn y daith/ymweliad, ysgrifennwch adolygiad i'r safle gwe sy'n adolygu gwyliau ac atyniadau ar gyfer ymwelwyr, yn disgrifio'r ymweliad yn fanwl ac yn rhoi eich barn am yr hyn oedd ar gael ar eich cyfer.

**Cwestiwn 2: (Thema Amgylchfyd)**

**Llythyr yn mynegi barn**

Rydych yn anghytuno â chynllun i adeiladu/datblygu rhywbeth fyddai yn effeithio ar yr amgylchfyd yn eich ardal. Ysgrifennwch lythyr at eich cynghorydd lleol / neu eich papur bro, yn mynegi eich barn ar y mater a'ch pryderon. Dylech gynnig rhesymau pam na ddylai'r cynllun gael ei ganiatau.

**Sut i ateb y cwestiwn 2:**

- Mae angen meddwl am y pwnc a'r ffurf: llythyr sydd ei angen yn y cwestiwn hwn.
- Dylid cynllunio'r ateb yn fras yn gyntaf – pwyntiau bwled. Pa bwyntiau i'w cynnwys? Pa enghreifftiau? Dylid meddwl am y rheswm pam maent yn ysgrifennu a beth maent yn ei wrthwynebu a'r rhesymau am hynny.
- Oes rhai pwyntiau perthnasol yn y darnau darllen y medrant eu cynnwys?
- Pa fath o eirfa/iaith fydd angen eu defnyddio?
- Gan gofio am nodweddion y ffurf, sicrhau eu bod yn dechrau eu hateb yn dda.
- Gwneud defnydd da o ffeithiau o'r darnau darllen ac o ffeithiau eraill perthnasol (ond cofio defnyddio eu geiriau eu hunain)
- Gwneud yn siŵr eu bod yn gwneud yr hyn mae'r cwestiwn yn ei ofyn amdano. Ydynt yn mynegi eu barn yn glir?
- Mae angen gwneud yn siŵr eu bod yn gorffen eu hateb yn dda – yn addas i ffurf llythyr ffurfiol.
- Ydy eu hiaith a'u mynegiant yn gywir?

Mae 20 marc am y gyfathrebu a threfn a 20 am yr iaith.

Cofio bod angen 200 a 300 o eiriau.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

**Cwestiwn 4: (Thema: Byd y Bêl)**

Ysgrifennwch araith i'ch cyd-ddisgyblion sydd yn dechrau meddwl am eu gyrfa yn y dyfodol, ar y testun:

Mae'n warthus bod pêl-droedwyr yn cael cyflogau mor uchel!

Gallwch roi eich barn o blaid/yn erbyn cyflogau uchel pêl-droedwyr ond dylech wneud ymdrech i roi rhesymau dros eich barn.

***Enghraifft o waith disgybl:***

Prynhawn da, gyd-ddisgyblion,

Heddiw rwyf am drafod cyflogau uchel pel-droedwyr gyda chi, ac a ydy hyn yn deg ai peidio. Mae pêl-droedwyr yn ennill £2.5 biliwn am hawliau teledu'r Uwch Gynghrair, yn ogystal âr £30.8 miliwn a dalwyd gan Chelsea am Andrig Schevenco yn 2006, heb sôn am brisiau uchel tocynnau tymor - mae perchennog tocyn tymor yn talu tua £100,000 am docynnau tymor mewn 52 mlynedd! Gallai rhai ddadlau bod pêl-droedwyr yn gweithio'n galed iawn ac yn hyfforddi bron bob diwrnod heb orffwys, ond eto mae hyn yn wir am nifer o wahanol swyddi e.e. doctoriaid, plismyn, ac nid ydynt yn derbyn cymaint â hyn o gyflog bob wythnos! Mae'n wir bod doctoriaid a phlismyn yn achub bywydau yn eu gwaith yn ogystal â bod milwyr yn colli eu bywydau yn eu gwaith, ac maent i gyd yn ennill llawer yn llai na phêl-droedwyr, sy'n ennill £250,000 yr wythnos dim ond am gicio pel i rwyd!

Mewn pedwar diwrnod yn unig, mae Gareth Bale yn ennill yr un swm ag y mae Prif Weinidog Prydain yn ei ennill mewn blwyddyn, ac mae'r Prif Weinidog yn arwain y wlad! Does gan bêl-droedwyr ddim wir ddiddordeb mewn helpu Prydain mewn ffyrdd economaidd, cymdeithasol nac amgylcheddol chwaith. Yn ogystal mae nifer helaeth iawn o bobl ar draws y byd yn dioddef yn ddyddiol oherwydd tlodi ac afiechydon y gellid eu hatal yn hawdd gydag ychydig mwy o arian, ond yn hytrach, mae'n anodd meddwl bod yr arian hwn allai arbed bywydau yn y pendraw yn cael ei wastraffu ar un person sydd â mwy na digon yn eu bywydau, tra nad oes gan rai hyd yn oed yr anghenion sylfaenol mewn bywyd.

Fodd bynnag, mae rhai yn dadlau bod teithio o amgylch y byd yn flinedig iawn i'r chwaraewyr pêl-droed ar ôl chwarae'n ddi-baid mewn twrnamentau drwy'r dydd. Rwy'n anghytuno'n gryf iawn â hyn, oherwydd nid

ADNODDAU DEFNYDDIOL

[CBAC](#) > [TGAU Cymraeg Iaith](#) > [Manyleb o 2015](#)

[CBAC](#) > [TGAU Cymraeg Iaith](#) > [Deunyddiau Asesu Enghreifftiol](#)

[CBAC](#) > [TGAU Cymraeg Iaith](#) > [Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol](#)

ydynt yn chwarae pêl-droed am gymaint â hynny o amser, ac nid oes raid iddynt dalu am eu hediadau i'r gwledydd tramor. Maent felly yn derbyn tripiau am ddim i wledydd pell ar yr amod eu bod yn cicio pêl o gwmpas cae am bum munud! Ydy hyn yn deg? Byddai rhai yn rhoi eu bywydau i gael y fath gyfleoedd! O'r holl arian mae'r pêl-droedwyr yn ei wneud yn flynyddol, ydyn nhw'n cyfrannu tipyn at elusennau neu at helpu pobl eraill? Mae brwydrau a rhyfeloedd yn y byd; a yw'r milwyr sy'n brwydro ynddynt yn derbyn cymaint o arian â phêl-droedwyr byd enwog?

Gallai rhai ddadlau bod diwedd yn dod i yrfa pêl-droedwyr pan maent yn ifanc - rhyw 30 oed, ond a ydy hyn yn eu hatal rhag helpu'r tlodion a chefnogi pobl llai ffodus yn y byd? Rhaid gweithredu a sylweddoli bod yna faterion pwysicach yn y byd i'w hystyried.

Felly, meddyliwch yn ddwys cyn penderfynu ar eich gyrfa. Ai arian mawr yn unig sy'n bwysig?

Diolch am eich gwrandawiad.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU


MAES ASTUDIO: PERSWÂD

## Perswâd

Pwyntiau Allweddol:

- Bydd cysylltiad thematig rhwng y tasgau ysgrifennu a'r deunydd darllen yn Uned 2 a 3 .
- Dylid hyfforddi dysgwyr sut i ddefnyddio a chymhwyso'r hyn maent wedi ei ddarllen i'w hysgrifennu eu hunain pan fydd hynny'n addas.
- Yn arholiad Uned 2, bydd gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu un darn o ysgrifennu o ddewis o ddau destun. Bydd disgwyl iddynt ysgrifennu naill ai tasg naratif, disgrifio neu esbonio. (35 marc - 20 am gyfathrebu a threfn a 15 am ysgrifennu'n gywir).
- Yn arholiad Uned 3, bydd gofyn i fyfyrwyr gynhyrchu dau ddarn o ysgrifennu - tasgau trafod a pherswâd. (40 marc yr un - cyfathrebu a threfn: 20 + ysgrifennu'n gywir: 20).
- Dylai myfyrwyr fod yn gyfarwydd â'r gwahanol fathau o ysgrifennu, eu nodweddion o ran cynnwys ac iaith, beth yw eu pwrpas a phwy yw eu darllenwyr.

## PARATOI I ADDYSGU


ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

PERSWÂD: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

**Cwestiynau enghreifftiol:**

**Cwestiwn 1: (Thema Hamdden ac Antur)**

**Rydych wedi bod ar daith neu ymweliad â rhyw le arbennig.**

Yn dilyn y daith/ymweliad, ysgrifennwch adolygiad i'r safle gwe sy'n adolygu gwyliau ac atyniadau ar gyfer ymwelwyr, yn disgrifio'r ymweliad yn fanwl ac yn rhoi eich barn am yr hyn oedd ar gael ar eich cyfer.

**Cwestiwn 2: (Thema Amgylchfyd)**

**Llythyr yn mynegi barn**

Rydych yn anghytuno â chynllun i adeiladu/datblygu rhywbeth fyddai yn effeithio ar yr amgylchfyd yn eich ardal. Ysgrifennwch lythyr at eich cynghorydd lleol / neu eich papur bro, yn mynegi eich barn ar y mater a'ch pryderon. Dylech gynnig rhesymau pam na ddylai'r cynllun gael ei ganiatau.

**Sut i ateb y cwestiwn 2:**

- Meddwl am y pwnc a'r ffurf. Llythyr sydd ei angen yn y cwestiwn hwn.
- Cynllunio'r ateb yn fras yn gyntaf – pwyntiau bwled. Pa bwyntiau ellir eu cynnwys? Pa enghreifftiau? Meddwl am y rheswm pam maent yn ysgrifennu a beth maent yn ei wrthwynebu a'r rhesymau am hynny.
- Oes rhai pwyntiau perthnasol yn y darnau darllen y medrant eu cynnwys?
- Pa fath o eirfa/iaith fydd angen eu defnyddio?
- Gan gofio am nodweddion y ffurf, sicrhau eu bod yn dechrau eu hateb yn dda.
- Gwneud defnydd da o ffeithiau o'r darnau darllen, ac o ffeithiau eraill perthnasol (ond cofio defnyddio eu geiriau eu hunain).
- Gwneud yn siwr eu bod yn gwneud yr hyn mae'r cwestiwn yn ei ofyn amdano. Ydynt yn mynegi eu barn yn glir?
- Gwneud yn siwr eu bod yn gorffen eu hateb yn dda – yn addas i ffurf llythyr ffurfiol.
- Ydy eu hiaith a'u mynegiant yn gywir?

Mae 20 marc am y gyfathrebu a threfn a 20 am yr iaith.
Cofio bod angen 200 a 300 o eiriau.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Assesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Assesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** i gael enghreifftiau o weithgareddau posibl ac enghreifftiau o ysgrifennu perswadiol.

*Beth yw ysgrifennu perswadiol?*

- *Math o ysgrifennu sy'n anelu at ddarbwyllo darllenwyr o safbwynt yr awdur.*
- *Mae testun perswadiol fel arfer yn sôn am un farn yn unig ynglŷn â dadl neu achos.*
- *Fel arfer defnyddir iaith emosiynol sy'n ennyn ymateb e.e. bydd coed yn cael eu dinistrio, plant yn dioddef...*
- *Cysyllteiriau a ddefnyddir yn aml yn y math hwn o ysgrifennu er mwyn symud o un pwynt i'r llall ydy: felly, oherwydd...*
- *Gellir defnyddio cwestiynau rhethregol er mwyn ennyn ymateb e.e. Fyddech chi'n fodlon gweld ...?*

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

**Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol**

## PERSWÂD:

- Enghreifftiau posibl o ysgrifennu perswadiol yw:
  - hysbyseb neu boster
  - pamfflled gan blaid wleidyddol neu grŵp gweithredu
  - catalog pamffled gwyliau
  - broliant llyfr
  - llythyr protest at olygydd
  - araith i gynulleidfa
  - adolygiad o lyfr neu ffilm

**Mae'r Fframwaith Pisa yn nodi:**

*Perswâd yw'r math o destun sy'n cyflwyno'r berthynas rhwng syniadau neu osodiadau. Yn aml mae testunau perswâd yn yn ateb cwestiynau pam. Is-ddosbarthiad pwysig o destunau perswâd yw testunau sy'n ceisio darbwyllo a thestunau mynegi barn, yn cyfeirio at farn a safbwyntiau. Ymysg enghreifftiau o wrthrychau testun yn y categori perswâd mae llythyr at y golygydd, poster hysbysebu, cyfraniadau i fforwm ar-lein ac adolygiad ar y we o lyfr neu ffilm.*

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

PERSWÂD:

**Tasgau enghreifftiol:**

**Cwestiwn 1 (Thema: Hamdden ac Antur)**

**E- bost at ffrind**

Rydych chi'n ceisio perswadio ffrind i ddod gyda chi ar daith/trip ysgol i le arbennig.

Ysgrifennwch e-bost ato/ati yn disgrifio'n fanwl yr hyn fydd yn cael ei gynnig ar y diwrnod ac yn rhoi y rhesymau pam y dylai ddod ar y daith/trip gyda chi.

**Cwestiwn 2 (Thema: Rhoi Organau)**

**Llythyr at y Golygydd**

Ysgrifennwch lythyr at olygydd eich papur newydd lleol yn ceisio perswadio'r darllenwyr i helpu pobl eraill mewn gwahanol ffyrdd. Gallwch gyfeirio at waith gwirfoddol/elusennol e.e. helpu'r digartref neu'r anabl yn ogystal â helpu eraill trwy roi gwaed neu roi organau.

**Cwestiwn 3 (Thema: Amgylchfyd)**

**Taflen yn perswadio**

Rydych eisiau perswadio ymwelwyr i ddod i'ch ardal i fwynhau'r amgylchfyd.

Lluniwch **daflen** gryno yn disgrifio yr hyn fydd i'w weld a'i wneud, ac yn ceisio annog ymwelwyr i ymweld â'r lle.

Ni ddylech dreulio gormod o amser yn dylunio'r daflen.

**Cyfarwyddiadau ychwanegol gyda'r cwestiynau yn y papur arholiad:**

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau (cwestiynau Uned 3).*

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

## PERSWÂD: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

**Gweithgareddau posibl:**

Gweithio'n unigol/pâr/grŵp/dosbarth:

- Ystyried beth yw pwrpas y dasg/cwestiwn dan sylw.
- Pwy fydd y darllenwyr?
- Pa fath o ffurf ac ieithwedd fydd eu hangen? (e.e. defnydd o ieithwedd berswadiol, berfau gorchmynnol, ansoddeiriau i ddisgrifio manteision ... i bwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, rhoi'r wybodaeth briodol sydd ei hangen ar y darllenwyr. Hefyd i ysgrifennu ar y ffurf briodol.)
- Beth yw nodweddion y ffurf?
- Pa wybodaeth o'r testun(au) darllen fydd yn bosibl i'w defnyddio? (Dylid annog yr ymgeiswyr i gywain y ffeithiau a'r rhesymau priodol wrth ddarllen y darnau, gan wneud nodiadau neu uwcholeuo ffeithiau defnyddiol.)
- Pa wybodaeth ychwanegol fydd ei hangen? Byddai ymchwilio i'r pwnc dan sylw yn fuddiol.

Yn unigol:

- Cynllunio'r darn ysgrifenedig yn fanwl.
- Ysgrifennu'n estynedig (rhwng 200 a 300 o eiriau).
- Ceisio ysgrifennu'n effeithiol a chywir ac i bwrpas gan ateb gofynion y cwestiwn cyfan.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

**Cwestiwn 4 (Thema: Byd y Bêl)**

Ysgrifennwch daflen i'w rhannu yn eich ysgol i berswadio disgyblion i ymuno ag unrhyw glwb o'ch dewis chi e.e. clwb darllen, clwb perfformio, clwb yn ymwneud â chwaraeon.

*Yn ogystal ag ysgrifennu estynedig gallwch gynnwys gwybodaeth bytiog megis tablau/amserlenni ond peidiwch â threulio gormod o amser yn dylunio'r daflen.*

Enghraifft o waith disgybl:

YMUNWCH Â CHLWB PÊL-DROED YSGOL ....

Nod clwb pêl-droed yr ysgol yw darparu adnoddau o safon uchel mewn awyrgylch groesawus a chyfeillgar, gyda chyfle i fwynhau, cymdeithasu a chwrdd â ffrindiau newydd !

Mynediad am ddim i ddisgyblion blwyddyn 7, felly dewch yn eich niferoedd!

Amseroedd ymarfer y clwb pêl-droed:

Dydd Llun : 17.30 - 19.30

Dydd Mercher : 17.30 - 19.30

Dydd Gwener : 16.30 - 18.30

Bwriad y clwb pel-droed newydd sbon hwn yw annog disgyblion yr ysgol i fyw bywydau iachach a mwy ymarferol. Yn ogystal, mae mynychu'r clwb yn gyfle gwych i gael profiad gwahanol ac i fwynhau ymhlith eich ffrindiau. Os byddwch yn ymuno â'r clwb, bydd cyfleoedd gwych i gymryd rhan mewn digwyddiadau i godi arian ar gyfer elusennau yn ogystal â chwarae gemau dros elusennau. Bydd yna gyfle i ymarfer sgiliau pêl-droed yn ogystal â chwarae gemau cyfeillgar yn erbyn eich ffrindiau ar ddiwedd pob sesiwn! Byddwn hefyd yn rhoi cyfle i chwarae gyda thîm yr ysgol yn erbyn timau ysgolion a chlybiau eraill ar y penwythnosau, a bydd cyfleoedd i'ch teuluoedd ddod i wylio a chefnogi. Yn ogystal, byddwn yn gwerthu cacennau ac yn gofyn i rieni gyfrannu at y stondinau hyn, a hefyd byddwn yn darparu diodydd oer ar ddiwedd pob gêm.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU

PERSWÂD: GWEITHGAREDDAU ENGHREIFFTIOL

Bydd yn werth chweil i chi ymuno â'r clwb i gael amser a chyfleoedd llawn miri a sbri yn ogystal â'r cyfle i gymdeithasu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg gyda'ch ffrindiau a phobl yr un oed â chi sy'n byw yn eich ardal.

Felly dewch, a chymerwch y cyfle llawn hwyl hwn cyn i'r tîm lenwi heb le ar ôl. Mae'n gyfle gwerth chweil!

**Nodweddion y gwaith hwn:** gwybodaeth am y clwb a'i nod; cyflwyno manteision e.e. i fyw bywydau iachach a mwy ymarferol. Cyfleoedd gwahanol; ansoddeiriau i ganmol e.e.croesawus, cyfeillgar, gwych. Ymadroddion sy'n annog e.e. bydd yn werth chweil; amser a chyfleoedd llawn miri a sbri. Annog gyda berfau'r gorchmynnol - dewch, cymerwch.

ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

**Rhestr o Adnoddau Allanol Perthnasol**

ADRAN: YSGRIFENNU | LEFEL ARHOLIAD: TGAU


MAES ASTUDIO: PRAWF DDARLLEN

**Prawf Ddarllen**

Pwyntiau Allweddol:

- Bydd y cwestiwn/cwestiynau prawf ddarllen yn rhan o Adran B (Ysgrifennu) papur arholiad Uned 2.
- Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos y gallu i ysgrifennu'n gywir a chywiro iaith.
- Gellir profi gallu'r ymgeiswyr i ysgrifennu'n gywir mewn amrywiaeth o ffyrdd o fewn un papur arholiad.

## PARATOI I ADDYSGU



**Dewiswch y ddelwedd (ar y chwith)** I gael enghreifftiau o weithgareddau posibl yn gysylltiedig ag ateb cwestiynau Prawf Ddarllen.

Gellir asesu gallu ymgeiswyr i ysgrifennu'n gywir trwy ddulliau amrywiol.  Dyma rai enghreifftiau:

- Adnabod a chywiro gwallau mewn brawddeg neu baragraff
- Dewis y gair cywir o dri dewis e.e. sillafu
- Addasu darn o ysgrifennu gan ei wneud yn fwy cywir
- Addasu cywair iaith darn o ysgrifennu
- Dewis y frawddeg gywir o fwy nag un dewis

Er mwyn paratoi eich disgyblion ar gyfer y rhan hon o'r arholiad bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o reolau gramadeg ac o briodoldeb cyweiriau iaith amrywiol.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

**Gweithgaredd 1:**

Canolbwyntio ar redeg arddodiaid:

- Gêm gardiau i'w chwarae mewn parau/grwpiau. Bydd angen tair set o gardiau o liwiau gwahanol. Bydd un set yn cynnwys arddodiaid, yr ail yn cynnwys rhagenwau a'r trydydd yn cynnwys arddodiaid rhedadwy. Gwaith y pâr/grŵp yw cysodi'r cardiau'n gywir. Gellir gwirio'r atebion fel dosbarth. (Gweler enghreifftiau o gardiau isod):

| | | |
|---|---|---|
| am | fi | amdanaf |
| ar | fo/ fe | arno |
| at | nhw | atyn nhw/ atynt |
| trwy | chi | trwyddoch chi |

- Dril - athro i nodi arddodiad a rhagenw a disgyblion i redeg yr arddodiad
- Disgyblion i ddefnyddio 5 rhagenw rhedadwy yn gywir mewn brawddegau
- Cywiro 5 brawddeg wallus e.e. Mae pawb yn siarad *am fo*.

## ADNODDAU DEFNYDDIOL

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol

**Gweithgaredd 2:**

- Gêm gardiau rhedeg berfau i'w chwarae mewn parau/grwpiau

Bydd angen cardiau yn nodi berfenwau e.e. mynd, canu, dawnsio. Dylai'r athro nodi amser a pherson e.e. person cyntaf, gorffennol. Dylai'r disgyblion droi'r cardiau, un ar y tro, a rhedeg y ferf yn gywir e.e. mynd + trydydd person gwrywaidd (fo/ef) gorffennol = aeth o/ef. Gellir rhoi rhestr o atebion cywir fel modd o wirio.

- Dril dosbarth i wirio ac ymarfer

Gellir defnyddio'r cardiau i gynnal ymarfer byr ar derfyn gwers e.e. athro i nodi person ac amser yna darllen un cerdyn berfenw ar y tro a'r dosbarth i redeg y ferf yn gywir.

- Disgyblion i ddefnyddio 5 berf yn gywir mewn brawddegau

- Cywiro 5 brawddeg wallus e.e. *Gwelodd fi y ffilm newydd ddoe*.

- Newid brawddeg yn y trydydd person gorffennol i'r person cyntaf gorffennol

**Gellir gwneud gweithgareddau o'r fath ar gyfer gwahanol agweddau ieithyddol a llunio ymarferion cywiro ar un agwedd benodol ar y tro cyn dechrau cynnwys agweddau amrywiol mewn ymarferion.**

ADNODDAU DEFNYDDIOL

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Manyleb o 2015**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol**

**CBAC > TGAU Cymraeg Iaith > Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol**

**ADNODDAU TGAU CYMRAEG IAITH**

- Manyleb www.cbac.co.uk
- Deunyddiau Asesu Enghreifftiol www.cbac.co.uk
- Briffio manyleb newydd (cyflwyniad llafar) www.cbac.co.uk
- Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Ychwanegol **http://adnoddau.cbac.co.uk/**

**Deunyddiau DPP Briffio a Sesiynau Paratoi i Ddysgu Manyleb Newydd Chwefror a Hydref 2015 – Gwefan Ddiogel CBAC www.wjecservices.co.uk**

---------------------------------------------------------------------------------------------

- Pecyn Cefnogi Jig-so 1 (CA3) http://adnoddau.cbac.co.uk/
- Pecyn Cefnogi Jig-so 2 (CA4) http://adnoddau.cbac.co.uk/

- Tasgau Ysgogi (CAA) http://adnoddau.cbac.co.uk/
- Tasgau golygu(CAA) http://adnoddau.cbac.co.uk/
- Prawfddarllen (CAA) http://adnoddau.cbac.co.uk/
- Deunyddiau anllenyddol (CAA)http://adnoddau.cbac.co.uk/
- Ymarferion amlddewis (CAA) http://adnoddau.cbac.co.uk/
    - Cyfres y Fflam (CAA)
    - Cyfres y Goleudy (CAA)
    - Gair yn Gymorth (llawlyfr i ddarpar athrawon) (CAA)
    - Seren Iaith (@ebol)
    - Seren Iaith 2 (mewn print / ap) (@ebol)

- Ymarferion Iaith http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/welsh/telesgop-grammar/cyflwyniadau-ca3.html

- Profion Darllen Cenedlaethol / Profion Pisa http://learning.gov.wales/resources/browse-all/reading-sample-materials/?lang=cy

- Canllawiau ar addysgu sgiliau ysgrifennu
  http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/100524writingcy.pdf

- Canllawiau ar addysgu uwch sgiliau darllen
  http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/1504015-guidance-on-teaching-higher-order-reading-skills-cy.pdf